# CYNLLLUN GWASANAETH BWYD IECHYD YR AMGYLCHEDD 2022/23




Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**<u>CYNNWYS</u>**


**1. Cyflwyniad**

1.1 Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth Bwyd
1.2 Cysylltiadau ag Amcanion Corfforaethol a chynlluniau.

**2. Cefndir**

2.1 Proffil yr Awdurdod Lleol
2.2 Strwythur Cyfundrefnol
2.3 Cwmpas y Gwasanaeth Bwyd
2.4 Gofynion ar y Gwasanaeth Bwyd
2.5 Polisi Gorfodi

**3. Cyflawni Gwasanaeth**

3.1 Ymyriadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd
3.2 Cwynion am Fwyd
3.3 Egwyddor Awdurdod Cartref a'r Cynllun Awdurdod Sylfaenol
3.4 Cyngor i Fusnesau
3.5 Samplo Bwyd
3.6 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd
3.7 Cysylltu gyda Mudiadau Eraill
3.8 Gwaith hyrwyddo Diogelwch a safonau bwyd
3.9 Rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau trosglwyddadwy sy'n gysylltiedig â bwyd

**4. Adnoddau**

4.1 Dyrannu Ariannol
4.2 Dyrannu Staff
4.3 Cynllun Datblygu Staff

**5. Asesiad Ansawdd**

5.1 Asesu Ansawdd a Monitro

**6. Adolygu**

6.1 Adolygu gan gymharu â'r Cynllun Gwasanaeth
6.2 Adnabod gwahaniaethau.
6.3 Meysydd gwella

**7. Atodiadau**

# 1. Cyflwyniad

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (MTCBC) i orfodi ystod o ddeddfwriaethau diogelwch bwyd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn chwarae rôl allweddol yn goruchwylio gweithgarwch gorfodi awdurdodau lleol sy'n ymwneud â materion bwyd. I'r perwyl hwn, maen nhw wedi cyhoeddi canllaw i awdurdodau lleol sy'n ymdrin â llunio cynlluniau gwasanaeth gorfodi bwyd blynyddol.

Yn sgil y pandemig Covid 19 a wnaeth beri bod angen trefnu cyfnod clo cyntaf Prydain ym mis Mawrth 2020, rhaid oedd ail-flaenoriaethu'r adnoddau oedd wedi'u neilltuo ar gyfer gwaith diogelwch a safonau bwyd fel arfer er mwyn ceisio mynd ati i reoli lledaeniad y coronafeirws. Ni chafodd cynllun cyflawni Cyfraith Bwyd traddodiadol ei lunio a'i gyhoeddi yn 2020/21 a 2021/22. Yn lle hynny, bu i'r gwasanaeth gyfeirio at Gwestiynau ac Atebion y Safonau Bwyd, sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd. Bu i'r rhain bennu blaenoriaeth i'r ymyriadau'r gyfraith fwyd a weithredwyd.

Cafodd cynllun eleni ei lunio'n unol â'r canllaw a gyflwynwyd i'r Awdurdodau Lleol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn y Cytundeb Fframwaith ar y cyd â chynllun adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Diben ein cynllun, sydd wedi'i gyhoeddi a'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr ynghlwm â Phwerau Brys Dirprwyedig, yw hysbysu preswylwyr a'r gymuned fusnes am drefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i reoleiddio a gwella diogelwch a safonau bwyd yn y Fwrdeistref. Hyn i gyd wrth inni fwrw iddi gyda'r broses adfer a cheisio ail-gydio yn ein gwaith.

## 1.1 Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth Bwyd

### 1.1.1 NODAU

Nod cyffredinol y gwasanaeth yw atal gwenwyn bwyd a salwch sydd wedi'i gludo gan fwyd a dŵr gan helpu sicrhau fod bwyd a diod i'w werthu ac i bobl ei fwyta / yfed wedi'i gynhyrchu, storio, dosbarthu, trin a'i fwyta/yfed yn y Fwrdeistref heb beryglu iechyd a diogelwch y prynwyr.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, dyma nodau'r tîm:

- ❖ Diogelu iechyd cyhoeddus rhag unrhyw risgiau a allai godi yn sgil bwyta bwyd ac amddiffyn buddion prynwyr sy'n gysylltiedig â bwyd.
- ❖ Ategu'r blaenoriaethau mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) wedi'u gosod i'w rheoleiddio.
- ❖ Cynnig cymorth a chymryd camau gorfodi cymesur, wedi'u targedu, sy'n seiliedig ar risg gan gynnwys archwiliadau i amddiffyn diogelwch bwyd ac atal salwch wedi'i gludo gan fwyd.
- ❖ Mynd i'r afael â busnesau twyllodrus a chymryd camau priodol i ddiogelu'r cyflenwad bwyd rhag llygriad, halogiad, twyll a chamddisgrifiadau.
- ❖ Cynnig cyngor, cymorth ac ysgogiadau priodol, wedi'u targedu, penodol, eglur a chadarn i fusnesau allu cydymffurfio hyd eithaf eu gallu â'r rheoliadau hylendid bwyd a'r gyfraith fwyd cyffredinol.

- Cynnig cyngor a chymorth i brynwyr er mwyn diogelu iechyd cyhoeddus ynghyd â hyrwyddo ffordd iachach o fyw a dewisiadau prynwyr.
- Cynnig dulliau eglur, cadarn a chyson er mwyn ymchwilio i a datrys cwynion prynwyr am gynnyrch bwyd a busnesau bwyd.
- Gwella ansawdd y gwasanaethau'n barhaus drwy fanteisio ar a datblygu sgiliau a gwybodaeth y staff.

### 1.1.2 AMCANION

Prif amcan y gwasanaeth yw hybu a chynnal safonau uchel o ran hylendid bwyd a safonau bwyd mewn safleoedd. Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Gofalu am iechyd a lles y cyhoedd drwy hybu a gorfodi safonau diogel o ran hylendid a diogelwch bwyd wrth baratoi, cynhyrchu, storio, dosbarthu, trin a gwerthu bwyd ym mhob safle bwyd perthnasol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Hyn i gyd yn unol â gofynion yr holl ddeddfwriaethau diogelwch bwyd perthnasol.
- Cynnal cyfres o ymyriadau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'i gynllunio yn unol â'r gofynion statudol ac yn unol â'r cerrig milltir sydd wedi'u crybwyll yng Nghynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- Cynorthwyo, cynghori ac addysgu'r holl gyrff am faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch a safonau bwyd a rheoli clefydau trosglwyddadwy.
- Monitro diogelwch bwyd sydd ar werth i'r cyhoedd ynghyd â chyfansoddiad a chywirdeb labeli bwyd drwy raglen samplo strwythuredig.
- Cynnig a chynnal amgylchedd masnachu gwybodus a diogel i breswylwyr ac ymwelwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Sicrhau nad yw bwyd i bobl yn peri risgiau iechyd a bod y masnachwyr yn cydymffurfio gyda'r safonau labelu a chyfansoddiadol.
- Ymateb i ac ymchwilio i gwynion gan brynwyr a masnachwyr sy'n ymwneud â bwyd a allai fod wedi'i halogi, sy'n anniogel neu sy'n anaddas i'w fwyta gan bobl.
- Ymateb i ac ymchwilio i achosion a lledaeniad o glefydau trosglwyddadwy a heintus y mae'r Awdurdod wedi'u hysbysu'n eu cylch.
- Amddiffyn prynwyr rhag twyll bwyd.
- Cyfathrebu gydag Awdurdodau Lleol, cyrff a rhanddeiliaid eraill.
- Cynnig cyngor a gwybodaeth am hylendid bwyd i fusnesau a'r cyhoedd.
- Ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i rybuddion bwyd a bygythiadau i ddiogelwch bwyd caiff ei werthu ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Sicrhau fod staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth yn ddigon cymwys i gyflawni gwaith diogelwch a safonau bwyd a sicrhau fod cyfarpar ac adnoddau digonol ar gael.
- Cyflawni'r gwasanaeth yn unol â systemau rheoli ansawdd.

## 1.2 CYSYLLTIAD AG AMCANION CORFFORAETHOL, BLAENORIAETHAU AR Y CYD A CHYNLLUNIAU

Mae dyletswydd ar y Cyngor i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu cymunedau gan gyfrannu tuag at gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy. Mae gofyn i bob Cyngor ddatblygu strategaeth gymunedol ar y cyd â mudiadau sector cyhoeddus eraill megis yr heddlu, adrannau iechyd, y gymuned fusnes a grwpiau gwirfoddol sy'n ymdrin â thargedau a gweithrediadau hirdymor er mwyn gwella'u hardal.


Mae'r Cyngor hefyd yn gorff cyhoeddus fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gwaith sydd wedi'i gyflawni yn y cynllun gwasanaeth hwn yn ategu nodau'r ddeddf, a'r nod 'Cymru iachach' yn bennaf.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Am y tro cyntaf ym myd y gyfraith, mae cyrff cyhoeddus yn rhannu'r un weledigaeth a diben.

Mae'r Ddeddf yn ymdrin â saith nod llesiant er mwyn sicrhau ein bod ni i gyd yn ymdrechu i gyflawni'r un weledigaeth ar y cyd. Mae pob nod llesiant wedi'u disgrifio'n drylwyr er mwyn sicrhau fod pawb ledled Cymru'n deall yr union nodau i'w cyflawni.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoddi dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant a chymryd camau i fodloni'r amcanion hynny.

Caiff amcanion llesiant y Cyngor eu crybwyll yng nghynllun y Cyngor "Canolbwyntio ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned"




**Dyma ein Hamcanion Llesiant:**

**Dechrau'n Deg**

Plant a phobl ifanc yn manteisio ar y dechrau gorau mewn bywyd ac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.

**Bywyd Gwaith**

Pobl yn teimlo'u bod nhw'n derbyn y cymorth priodol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel sy'n datblygu ac sy'n sicrhau fod Merthyr Tudful yn ardal ddeniadol.

**Lles Amgylcheddol**

Cymunedau'n diogelu, gwella a hybu ein hamgylchedd a'n cefn gwlad

**Byw'n Dda**

Pobl wedi'u grymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maen nhw'n ddiogel ac yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

At hyn, bu i Lywodraeth Cymru (LlC)[1] gyhoeddi cyfres o flaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, sef:

i. Diogelu unigolion rhag niwed a hybu gwella iechyd.
ii. Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid.
iii. Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau.
iv. Gwella'r amgylchedd lleol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd a hybu cynaliadwyedd.

Mae'r Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Bwyd hwn yn ategu pob un o'r pedair blaenoriaeth orfodi genedlaethol.

### 1.2.1 Cysylltiadau â'n Hamcanion Llesiant a Blaenoriaethau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru

Bydd y gwasanaeth bwyd yn ategu amcanion llesiant yr awdurdod lleol yn ogystal â blaenoriaethau gorfodi Llywodraeth Cymru drwy gyflawni'r canlynol:-

- Cyflawni ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd sy'n seiliedig ar risgiau mewn safleoedd bwyd yn y Fwrdeistref er mwyn gwella safonau hylendid bwyd a glanweithdra. Bydd hyn yn ategu delwedd gadarnhaol y Fwrdeistref yn ei chyfanrwydd. Bydd gwell safonau hefyd yn sicrhau fod busnesau'n ennyn diddordeb cwsmeriaid gan wella'r economi lleol yn ei dro.

- Gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i hwyluso dewisiadau prynwyr a helpu masnachwyr i hybu busnesau blaenllaw.

- Ymchwilio i gwynion am fwyd a safleoedd bwyd.

- Cymryd camau gorfodi priodol yn unol â'n Polisi Cydymffurfio a Gorfodi i fynd i'r afael â busnesau neu unigolion sy'n torri Cyfreithiau Bwyd.

- Cyflawni rhaglen samplo bwyd sy'n seiliedig ar risg i fonitro ansawdd microbiolegol bwyd sy'n barod i'w fwyta sydd naill ai wedi'i gynhyrchu neu ei werthu yn y Fwrdeistref a hynny ar y cyd â mentrau rhanbarthol a chenedlaethol.

- Cyflawni rhaglen cadw golwg ar safonau bwyd i sicrhau bod y bwyd yn bodloni'r gofynion isod :

    - yn dderbyniol o ran eu natur, sylwedd ac ansawdd;

    - nid yw'n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch y prynwr;

    - ni chaiff ei ddisgrifio neu ei labelu'n anghywir er mwyn camarwain y prynwr;

- Ymateb yn brydlon ac yn briodol i'r holl rybuddion bwyd sydd wedi'u cyflwyno gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

[1] National Enforcement Priorities for Wales (publishing.service.gov.uk)

- Sicrhau'r un amodau ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd drwy ddarparu cyngor a chysondeb o ran gorfodi.

- Cydweithio gydag Awdurdodau Lleol a Mudiadau eraill i fanteisio i'r eithaf ar ddeilliannau iechyd cyhoeddus ac effeithlonrwydd ariannol

- Cynnig cyngor a chymorth i fusnesau newydd gan eu hannog i gynnal eu busnes yn y Fwrdeistref, cynnig cyfle iddyn nhw ddatblygu'n ystod y camau cychwynnol gan osgoi camgymeriadau costus ac ennill y sgôr uchaf posib ynghlwm â'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

- Cynnig cyngor a chymorth i fusnesau presennol wrth iddyn nhw ehangu eu detholiad o gynnyrch a'u rhwydwaith dosbarthu.

- Diogelu busnesau rhag niwed i'w henw da yn sgil twyll/trosedd bwyd.

- Mynd i'r afael â thwyll/trosedd bwyd i ddiogelu ein haelodau sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas.

- Cydweithio'n agos gydag ein partneriaid i adnabod a datrys risgiau diogelwch bwyd trawsffiniol.

- Cydweithio gydag asiantaethau eraill i hyrwyddo diogelwch bwyd i'r cyhoedd, ifanc a hen, drwy fentrau megis yr Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd.

- Ymchwilio i achosion o wenwyn bwyd a darparu cyngor ar gyfer achosion a chysylltiadau.

- Hyrwyddo bwyta'n iach.

## 2. Cefndir

### 2.1 Proffil yr Awdurdod Lleol

Mae Merthyr Tudful wedi'i nythu yn Rhanbarth Blaenau'r Cymoedd a dyma'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru gydag arwynebedd o oddeutu 11,100 hectar. Mae oddeutu un rhan o bump o'r Fwrdeistref Sirol yn ymestyn dros rannau gogleddol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan sicrhau fod oddeutu 8,668 hectar o dir yn nwylo cynllunio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol. Ymysg awdurdodau cyfagos y Fwrdeistref Sirol mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf tua'r gorllewin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili tua'r dwyrain a'r de.

Mae poblogaeth Merthyr Tudful oddeutu 60,000 gydag oddeutu 44,000 o'r bobl hynny wedi ymgartrefu ym mhrif dref Merthyr Tudful sef prif ganolbwynt masnachu, manwerthu a gwasanaethau'r Fwrdeistref Sirol a Rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Gan hynny, mae pencadlys gweinyddol (e.e. y Cyngor Bwrdeistref Sirol) ym mhrif dref Merthyr Tudful ynghyd â'r prif fannau siopa, y rhan helaeth o gyfleoedd gwaith, ysbyty a sawl gwasanaeth a chyfleusterau lefel uwch eraill sy'n cynnig eu gwasanaeth i bentrefi'r fro. Mae gweddill y boblogaeth ar wasgar ymhlith yr wyth pentref rhyngddibynnol tua'r pen deheuol ar hyd y Taf a dyffrynnoedd afonydd Taf Bargoed. Mae llai o gyfleoedd gwaith yn y pentrefi hyn yn ogystal ag ystod o wasanaethau lefel is sy'n bodloni anghenion y trigolion.

Mae Merthyr Tudful yn cyflawni rôl strategol allweddol yng nghanol rhanbarth Blaenau'r Cymoedd, gan elwa ar lefelau uchel o hygyrchedd yn sgil ei leoliad ar groesffordd coridorau trafnidiaeth strategol yr A470 (T) a'r A465 (T) yn y gogledd a'r A470 (T) a choridorau trafnidiaeth strategol yr A472 yn y de. Mae'r Fwrdeistref Sirol ond yn 25 munud tua'r gogledd o Gaerdydd a choridor yr M4. Ar hyn o bryd, mae 1,499,5472 o bobl wedi ymgartrefu a 679,4003 o swyddi ar gael yn Rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

### 2.2 Strwythur Cyfundrefnol

Mae 30 o Gynghorwyr yn gweithredu ar ran Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Fe gaiff y cynghorwyr eu hethol pob 4 mlynedd fel cynrychiolwyr democrataidd ar ran yr etholwyr ym mhob un o'r un ar ddeg ward.

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn meddu ar y weinyddiaeth wleidyddol ar hyn o bryd. Caiff y Cynghorwyr etholedig hyn eu henwebu i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau sy'n gweithredu o dan system Cabinet gyda phortffolios unigol. Mae holl benderfyniadau'r Cabinet yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor cyfan yn ogystal ag adolygiad craffu.

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol (CMT), yn cydweithio gyda'r Cabinet etholedig, sef y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol.

Mae'r Cyngor wedi'i rannu'n 3 cyfarwyddiaeth: -

- Pobl a Pherfformiad.
- Lle a Thrawsnewid.
- Gwaith Corfforaethol

Mae'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn rhan o Isadran Diogelu'r Cyhoedd sydd newydd ei ffurfio ac sydd ynghlwm â'r Gyfarwyddiaeth Lle a Thrawsnewid. Fe benodwyd Pennaeth

Gwasanaeth a Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd newydd yn 2022 ac fe grëwyd rôl Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd newydd ym mis Rhagfyr 2021.

Caiff y gwasanaeth diogelwch bwyd ei gyflawni gan dîm o 6 Swyddog Iechyd yr Amgylchedd gyda 4 o'r rheiny yn llawn amser a 2 yn rhan amser. Mae pob un ohonyn nhw'n gyfrifol dros swyddogaethau eraill yn ogystal.

Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus yn atebol yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd sy'n gweithredu fel swyddog arweiniol ar gyfer diogelwch bwyd ac sydd â chyfrifoldeb Arweiniol dros Safonau Bwyd ar y cyd ag Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd arall yn y tîm.

Mae copi o'r Strwythur Rheoli Adrannol cyfredol ynghlwm ag **Atodiad 1**. Mae copi o'r Strwythur Rheoli Cyfundrefnol ar gyfer y Cyngor ynghlwm ag **Atodiad 2**.

Mae swyddogion wedi'u hawdurdodi o dan Gyfansoddiad y Cyngor i lefel sydd gymesur â'u cymwysterau a'u profiad yn unol â Chod Ymarfer y Gyfraith Fwyd Statudol.

### 2.2.1 Cysylltiadau â Gwasanaethau Eraill

**Gwasanaethau Arbenigol**

**Dadansoddwr Bwyd** – Bu i'r Fwrdeistref Sirol benodi Mr Alistair Low o Alastair Low, B.Sc.(Anrh), M.Sc., M.Chem.A., C.Chem Minton, Treharne & Davies (MTD) Long Wood Drive, Caerdydd, CF14 7HY i weithredu fel Dadansoddwr Cyhoeddus ar ran yr Awdurdod, fel sy'n ofynnol o dan Adran 27 y Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Codir tâl ar yr Awdurdod Lleol am y gwasanaeth hwn.

**Archwiliwr Bwyd** – Mae'r Awdurdod hefyd yn rhwym i gytundeb gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cynnig dadansoddiad microbiolegol a gwasanaeth cyngor. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith yn Adran Microbioleg, Ysbyty Llandochau Fach, Heol Penlan, Penarth, Bro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn amodol ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) ffurfiol sy'n pennu'r cyllid gaiff ei ddyrannu i'r Awdurdod Lleol a'r mathau o samplau y gellir eu cyflwyno ynghlwm â'r dyraniad hwnnw.

**Campden BRI**- Mae'r Awdurdod Lleol yn aelod o Campden BRI o Chipping Campden, Swydd Gaerloyw sy'n cynnig cyngor ar amryw faterion arbenigol yn ymwneud â bwyd, fel sy'n briodol. Mae gwasanaethau dadansoddol hefyd ar gael ac fe godir tâl am bob sampl a gyflwynir.

**Contractwyr Arbenigol** – Fe gân nhw eu cyflogi yn ôl yr angen.

## 2.3 Cwmpas y Gwasanaeth Bwyd

Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus y Cyngor yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau er mwyn cynnig gwasanaeth hollgynhwysol i'w cwsmeriaid gan gyfuno elfennau gorfodi, addysgol a chynghori. Bydd y tîm yn cyflawni'r canlynol: -

- **Archwilio safleoedd lle caiff bwyd ei gynhyrchu neu ei werthu er mwyn gwirio'u cydymffurfiaeth gyda deddfwriaethau bwyd –** Mae swyddogion yn treulio'r rhan helaeth o'u hamser yn cynnal archwiliadau hylendid bwyd / safonau bwyd ac ymyriadau eraill mewn safleoedd bwyd ledled y Fwrdeistref Sirol.

- **Cynnal ymweliadau / ail-ymweliadau rhwng ymyriadau wedi'u rhaglennu lle amlygwyd tor-cyfraith sylweddol –** Mae gofyn i swyddogion gynnal archwiliad dilynol yn dilyn archwiliad ar safle lle canfuwyd problemau sylweddol.

- **Gweithredu gofynion statudol y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd statudol**

- **Gweithredu rhaglen samplo bwyd ar gyfer dadansoddiad microbiolegol a chyfansoddiadol o fwyd –** Mae Swyddogion yn caffael samplau bwyd yn aml er mwyn pennu'r ansawdd microbiolegol a gofyniad cyfansoddiadol y bwyd ac er mwyn profi am alergeddau. Pan na fyddai samplau yn bodloni'r safonau gofynnol, byddai'r swyddog yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ac yn cyflawni dadansoddiad pellach.

- **Derbyn, ymateb i a phrosesu'r holl geisiadau i gofrestru neu gymeradwyo safleoedd bwyd –** Byddwn yn derbyn nifer fawr o geisiadau i gofrestru safleoedd bwyd pob blwyddyn a bu cynnydd sylweddol yn y ceisiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tîm yn gyfrifol dros brosesu ac ymateb i'r holl geisiadau. At hyn, fe gaiff ceisiadau eu cyflwyno ar gyfer cymeradwyo'r safleoedd. Eto, mae'r tîm yn gyfrifol am brosesu ac ymateb i'r ceisiadau gan eu cymeradwyo neu eu gwrthod yn y pendraw. Mewn rhai achosion, fe gaiff y safleoedd eu cymeradwyo'n amodol.

- **Ymateb i ac ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â chyflwr safleoedd bwyd a gwerthiant bwyd a allai fod yn anaddas i'w fwyta neu sydd wedi'i lygru –** Gallai'r cwynion hyn ymwneud â bwyd neu safleoedd bwyd. Bydd y gwasanaeth bwyd yn ymchwilio i gwynion sy'n tarddu o'r Cyngor. Pan fo cwyn yn tarddu o'r tu hwnt i'r Fwrdeistref Sirol, bydd swyddogion yn cydweithio'n agos gyda'r awdurdod bwyd perthnasol. Lle mae gan safle Awdurdod Sylfaenol, byddai'r swyddogion yn cydweithio gyda'r Awdurdod Sylfaenol hwnnw i ddatrys y broblem. Gallai hyn olygu cadw a/neu atafaelu cynnyrch bwyd drwg neu afiach.

- **Ymateb i ac ymchwilio i gwynion / hysbysiadau sy'n ymwneud â chlefydau trosglwyddadwy ac sydd wedi'u cludo gan fwyd –** Mae'r gwasanaeth yn derbyn hysbysiadau am achosion o wenwyn bwyd yn rheolaidd. Mae'r swyddogion yn mynd i'r afael â'r holl hysbysiadau o heintiau achlysurol ac unrhyw achosion o heintiau feirol neu sydd wedi'u cludo gan fwyd.

- **Ymateb yn brydlon ac yn briodol i hysbysiadau o Rybuddion Bwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd –** Mae'r gwasanaeth yn derbyn nifer o rybuddion bwyd drwy gydol y flwyddyn. Bydd y swyddogion yn mynd i'r afael â rhybuddion bwyd sydd angen gweithredu yn eu cylch fel sy'n briodol.

- **Casglu a chyflwyno gwybodaeth am ddigwyddiadau bwyd a gweithgarwch troseddol sy'n ymwneud â bwyd.**

- **Ymchwilio i achosion gwirioneddol a honedig o salwch sydd wedi'i gludo gan fwyd a dŵr.**

- **Cynnig cyngor i fusnesau a’r gymuned ehangach ar faterion sy’n ymwneud â chlefydau trosglwyddadwy.**

- **Cyflawni prosiectau arbennig, arolygon ac ati pan fo’n briodol a phan fo adnoddau digonol i wneud hynny.**

- **Archwilio ac ymateb i geisiadau cynllunio a thrwyddedu sy’n gysylltiedig â safleoedd bwyd**.

- **Gweithredu fel Awdurdod Cartref / Sylfaenol ar ran safleoedd –** Mae’r Cyngor yn gweithredu’n anffurfiol fel Awdurdod Cartref ar ran OP Chocolates, sef gwneuthurwr sylweddol yn y Fwrdeistref Sirol.

- **Cynnig cyngor ac arweiniad i safleoedd bwyd –** Mae cynnig cyngor ac arweiniad i fusnesau lleol a’r cyhoedd yn rhan annatod o’n gwaith. Rydym yn cynnig cyngor / arweiniad / taflenni cynghori i fusnesau bwyd ynghylch sut i gydymffurfio gyda’r gofynion deddfwriaethol.

- **Ymgymryd â gweithgareddau ymwybyddiaeth a hyrwyddo hylendid bwyd –** mae’r Adran yn manteisio ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod Lleol i ennyn diddordeb y cyhoedd / busnesau ac i hyrwyddo Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth Hylendid Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

  Yn ystod chwarter cyntaf 2022, aeth y gwasanaeth ati i hyrwyddo’r ymgyrchoedd canlynol ‘Codi Llais dros Alergeddau’ – roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar dargedu busnesau bwyd i godi eu hymwybyddiaeth o alergeddau yn ogystal â phobl ifanc 18-21 oed i’w hybu i godi eu llais ynghylch eu halergeddau. Yn ogystal, bu i’r gwasanaeth hyrwyddo’r ymgyrch ‘Cofrestru eich busnes bwyd’ sydd â’r nod o godi ymwybyddiaeth busnesau ynghylch y gofyniad cyfreithiol i gofrestru eu busnes bwyd ynghyd â Diogelwch Bwyd mewn digwyddiadau’r Jiwbilî Platinwm. Bydd y gwasanaeth yn parhau i gefnogi a hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o hylendid bwyd drwy gydol y flwyddyn ariannol ac yn rhannu’r adnoddau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

- **Archwilio ac ymateb i geisiadau cynllunio a thrwyddedu sy’n gysylltiedig â safleoedd a digwyddiadau bwyd.**

  Ar y cyd â’u gwaith gwasanaeth bwyd, mae’r Tîm Iechyd Cyhoeddus hefyd yn cyflawni gwasanaeth iechyd a diogelwch yr awdurdod, yn trwyddedu gweithdrefnau arbennig, yn rheoleiddio cyflenwadau dŵr preifat, yn ymdrin ag angladdau iechyd cyhoeddus ac yn gorfodi deddfwriaeth dim ysmygu yn ogystal â rheoliadau iechyd cyhoeddus newydd. Mae’r tîm hefyd ynghlwm â’r gwaith ymateb i COVID-19 sy’n gysylltiedig â safleoedd caeedig.

- **Darparu tystysgrifau Ardystio Safleoedd Diogelwch Bwyd ar gyfer Allforio**

## 2.4 Gofynion ar y Gwasanaeth Bwyd

a) Y Cyhoedd:

Rydym yn cynnig ein gwasanaeth i 3 ‘math’ o gwsmeriaid:

- 60,000 o breswylwyr y Fwrdeistref,
- Nifer anhysbys o brynwyr sy’n byw y tu hwnt i’r Fwrdeistref ond sy’n siopa / bwyta yn y Fwrdeistref,
- Nifer anhysbys o brynwyr sy’n byw y tu hwnt i’r Fwrdeistref ond sydd wedi prynu bwyd gaiff ei gynhyrchu ar safleoedd yn y Fwrdeistref.

b) Busnesau:

Ar Ebrill y 1af 2022 roedd gan y Fwrdeistref oddeutu 618 o safleoedd bwyd wedi’u cofrestru ar eu cronfa ddata. Mae’r holl fusnesau’n amodol ar gyfres o ymyriadau sy’n seiliedig ar risg a gaiff eu pennu’n unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Statudol (Cymru).

### 2.4.1 Safleoedd Bwyd

Mae 618 safle bwyd wedi’u cofrestru ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar Ebrill y 1af 2022. Mae 542 o’r rhain yn cydymffurfio’n fras â’r rheoliadau. Gallwch fwrw golwg ar ddadansoddiad llawn o broffiliau’r safleoedd ym mharagraff 3.0.

### 2.4.2 Safleoedd Cymeradwy

Mae gan yr Awdurdod **ddau** safle cymeradwy yn y Fwrdeistref, ar hyn o bryd, sy’n storfeydd oer annibynnol. Mae un storfa oer hefyd wedi’i gymeradwyo ar gyfer gweithgarwch ail-lapio.

Mae hefyd ffatri torri sylweddol yn y Fwrdeistref sydd wedi’i gymeradwyo gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru. Fodd bynnag, mae’r gwasanaeth hwn yn gyfrifol dros orfodi deddfwriaeth safonau bwyd fel rhan o’u cylch gorchwyl.

### 2.4.3 Mannau cyflawni gwasanaeth

Mae’r gwasanaeth yn gweithredu o un man canolog a chyfleus h.y. Y Ganolfan Ddinesig, Heol y Castell, Merthyr Tudful. Gallai ein cwsmeriaid gyrraedd y Ganolfan Ddinesig gyda char, trên neu fws. Ein horiau swyddfa arferol yw 8.30yb – 5.00yp ddydd Llun i ddydd Iau a 8.30yb – 4.30yp ar ddydd Gwener. Ffôn: 01685 725000. Mae’r Swyddfeydd Dinesig ar agor i’r cyhoedd rhwng 10-12 a 2-4yp gan ein bod ni wedi cwtogi’r oriau mynediad yn ystod y pandemig COVID.

Mae’r Awdurdod wedi mynd ati i gyflawni model gweithio ystwyth lle mae’r swyddogion yn gweithio o adref yn bennaf ac o’r Ganolfan Ddinesig yn achlysurol.

Gallwch gysylltu gyda swyddogion sydd ddim yn gweithio yn y swyddfeydd ar eu rhifau ffôn symudol. Gallai'r defnyddwyr gwasanaeth hefyd e-bostio PublicHealth@merthyr.gov.uk neu MTCBCcomplaints@merthyr.gov.uk

### 2.4.4 Gwasanaeth y Tu Hwnt i Oriau Arferol

Mae'r gwasanaeth ar waith yn bennaf yn ystod oriau swyddfa arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, mae mwyfwy o fusnesau ar agor y tu hwnt i'r oriau hyn ac mae'r swyddogion yn cynnal archwiliadau arferol gyda'r nos ac ar benwythnosau'n rheolaidd.

Does dim gwasanaeth brys ffurfiol y tu hwnt i oriau arferol fodd bynnag roedd trefniadau anffurfiol ar waith lle bu modd i'r gwasanaeth ymdrin ag achosion brys yn y gorffennol gyda swyddogion yn mynychu ar sail ewyllys da. Mae'r gwasanaeth wedi dod i drefniant gyda Chyngor cyfagos Rhondda Cynon Taf i gynnig gwasanaeth cilyddol os nad oes swyddogion ar gael o'r naill awdurdod na'r llall yn ystod argyfwng sydd y tu hwnt i oriau arferol.

### 2.4.5 Gofynion eraill ar y gwasanaeth

**Covid 19**

Yn sgil y pandemig Covid-19 mae ôl-groniad sylweddol o archwiliadau hwyr gan y bu i nifer o fusnesau gau am gyfnodau estynedig. Aeth busnesau ati hefyd i addasu a newid eu gweithgareddau'n ystod y pandemig ac nid yw eu gweithdrefnau diogelwch bwyd o reidrwydd wedi'u diweddaru'n ddigonol. Bydd rhai wedi dod yn hunanfodlon gan na gynhaliwyd eu harchwiliadau rheolaidd. Byddai nifer wedi wynebu trafferthion ariannol ac o ganlyniad mae'n debyg bod rhai yn esgeuluso rhai tasgau er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Wrth i safonau ddirywio, mae'r gwasanaeth wedi nodi cynnydd cyfatebol yn y lefelau o gamau gorfodi caiff eu gweithredu. At hyn, rydym yn derbyn nifer cynyddol o apeliadau a cheisiadau ail-sgorio o ganlyniad i fusnesau'n derbyn sgorau hylendid isel yn dilyn eu harchwiliad.

Mae holl staff y gwasanaeth yn parhau i fod ynghlwm â'r gwaith ymateb i COVID-19 ac mae cyfraddau'r achosion yn pennu'r lefelau o adnoddau sydd eu hangen. Mae hyn yn faich ychwanegol ar y gwasanaeth heb unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu. Ni wyddom ar adeg llunio'r cynllun hwn beth fyddai effaith tebygol y newidiadau i'r Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Rhanbarthol (ar ôl troed Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg) ar y gwasanaeth ar ôl Gorffennaf 2022.

**Cyflwyno Cyfraith Natasha**

O Hydref 2021, bu i'r gofynion ar gyfer labelu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) newid ledled Prydain ac mae'n berthnasol i unrhyw fusnes bwyd sy'n cynhyrchu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol waeth beth yw eu maint.

Mae bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn fwyd gaiff ei becynnu yn yr un lle caiff ei gynnig neu ei werthu i brynwyr. Mae'n eitem unigol, sef y bwyd a'i becyn sy'n barod i'w gyflwyno i'r prynwr cyn iddyn nhw ei archebu neu ei ddewis.

Mae'r newidiadau yn golygu y bydd angen labelu unrhyw fwyd sydd wedi'i becynnu cyn i'r prynwr ei archebu neu ei ddewis, ac sydd wedi'i werthu ar yr un safle lle caiff ei becynnu (neu

safle lle mae busnes yn gweithredu o fwy nac un lleoliad megis canolfan siopa). Mewn Bwrdeistref Sirol lle mae busnesau yn dueddol o fod yn weithrediadau bach, bydd yn her sylweddol i sicrhau fod busnesau'n cydymffurfio gyda'r newidiadau deddfwriaethol.

**Cadw a Recriwtio Staff**

Mae recriwtio Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd cymwys a phrofiadol yn her sylweddol ac mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ledled Cymru a Lloegr. Mae'r sefyllfa'n gwaethygu ymhellach yn sgil y gwahaniaeth mewn cyfraddau cyflog sy'n golygu fod Swyddogion yn symud o un Awdurdod Lleol i un arall.

Mae sawl ffactor sy'n effeithio ar y gronfa cyfyngedig, ac sy'n gostwng yn sylweddol, o weithwyr proffesiynol. Ymysg y ffactorau mae: gweithlu sy'n heneiddio, uwch swyddogion yn ymddeol, colli swyddogion i sectorau / asiantaethau eraill megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd / Iechyd Cyhoeddus Cymru / cwmnïau Ymgynghori Preifat / secondiadau i Lywodraeth Cymru gyda phob un ohonyn nhw'n aml iawn yn cynnig tâl uwch.

**Gwyliau Blynyddol**

Ni lwyddodd y Swyddogion i gymryd eu holl ddiwrnodau gwyliau blynyddol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf oherwydd bu iddyn nhw gynnig ymateb rheng flaen barhaus i'r pandemig. Bu i bob un o'r swyddogion drosglwyddo eu mwyafswm o 10 diwrnod gwyliau (pro-rata) i 2022/23.

**Cynnydd mewn Camau Gorfodi**

Wrth inni fynd rhagddi gyda cherrig milltir allweddol y Cynllun Adfer Bwyd ac ail-gydio yn yr archwiliadau bwyd gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru, bu inni weld dirywiad yn safonau safleoedd bwyd. Er bod swyddogion y rheng flaen yn ategu hyn, mae'n rhy fuan inni asesu a yw hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o fusnesau bwyd neu a yw oherwydd caiff busnesau newydd a busnesau presennol gyda hanes gwael o gydymffurfio eu blaenoriaethu ar gyfer archwiliadau.

Mae Swyddogion ein Hadran yn adrodd am nifer gynyddol o safleoedd sy'n derbyn sgôr o 0-2 (diffyg cydymffurfio'n fras). O ganlyniad, mae cynnydd cyfatebol yn y lefel o gamau gorfodi gaiff eu gweithredu, gan gynnwys cau busnesau'n wirfoddol neu'n orfodol a chyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Camau Adfer.

Mae hyn yn cael effaith ar gyflawni ein Cynllun Adfer, gan fod camau gorfodi yn cymryd llawer o amser oherwydd cynnydd mewn gwaith papur cyfreithiol, ail-ymweliadau lluosog i sicrhau eu bod wedi mynd i'r afael â'r camau unioni sydd eu hangen ar frys a mynychu'r llys sydd oll yn amharu ar allu'r swyddogion i gynnal archwiliadau. Yna fe gaiff y busnesau hyn eu gosod mewn categori risg uchel ar gyfer ymyriad newydd. O ganlyniad, mae hyn yn cynyddu'r nifer cyffredinol o archwiliadau bydd angen eu cwblhau cyn diwedd Mawrth 2023.

At hyn, pan fo busnesau'n derbyn sgôr hylendid bwyd gwael, maen nhw fel arfer yn gofyn am ymweliad ail-sgorio mewn ymgais i wella'u 'sgoriau ar y drysau' y mae'n rhaid iddyn nhw eu harddangos yn gyfreithiol. Mae'n anodd rhagweld y nifer o geisiadau ail-sgorio byddwn ni'n eu derbyn yn ystod y cyfnod adfer ond ar sail y taflwybr a'r sefyllfa archwilio bresennol, rydym yn rhagweld cynnydd o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Yn ei dro, bydd hyn hefyd yn

cynyddu'r nifer o archwiliadau sydd angen eu cynnal cyn diwedd Mawrth 2023. Bydd angen blaenoriaethu'r ymweliadau ail-sgorio hyn yn unol â'r gofyniad cyfreithiol i gwblhau'r archwiliad ail-sgorio ymhen 3 mis o gyflwyno cais taledig i'r Awdurdod.

**Hyd yr Archwiliadau**

Mae pob archwiliad yn cymryd awr ychwanegol i'w cwblhau ar gyfartaledd yn sgil gofynion cynyddol gwaith safonau Bwyd sy'n ymwneud â rheoli alergeddau a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth newydd sy'n ymwneud â chynnyrch wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

**Nifer gynyddol o fusnesau bwyd newydd**

Bu cynnydd yn y nifer o gofrestriadau busnesau newydd ers Mawrth 2020. Gallai hyn fod yn sgil gweithwyr ar y cynllun cadw swyddi'n troi eu llaw at rywbeth gwahanol a sefydlu busnesau newydd, o adref yn bennaf, gan werthu bwyd drwy dudalennau marchnadoedd ar-lein a gwefannau cyfryngau cymdeithasol megis Facebook ac Instagram. Bu i 171 o fusnesau newydd gofrestru gyda'r Awdurdod hwn rhwng Mawrth 2020 a diwedd Medi 2021 o gymharu â 59 busnes newydd wnaeth gofrestru rhwng Ebrill y 1af 2019 – Mawrth yr 31ain 2020.

Wrth gofrestru pob busnes newydd a sgorio'u risg ar fwrdd gwaith, caiff yr archwiliadau hyn eu hychwanegu at raglen archwilio eleni. Mae'n anodd rhagweld y nifer o gofrestriadau newydd gaiff eu derbyn neu caiff eu hadnabod drwy fanylion ar-lein / gwybodaeth leol ac sydd angen eu harchwilio cyn diwedd Mawrth 2023. O ganlyniad, byddan nhw'n faich ychwanegol ar y Cynllun Adfer Bwyd.

Yn ystod y pandemig mae nifer o'r busnesau newydd bu inni eu harchwilio wedi cau wrth i unigolion naill ai ddychwelyd i'w rolau arferol neu wrth i ffactorau economaidd effeithio ar lwyddiant y mentrau. Mae hyn wedi bod ac yn anffodus yn parhau i fod yn wastraff anochel o'n hadnoddau gan fod y byd busnes yn ansefydlog.

**Amrywiaeth Diwylliannol ac Ethnig**

Yn draddodiadol, prin iawn fu'r nifer o fusnesau bwyd yn y Fwrdeistref Sirol gyda gweithredwyr lle nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddyn nhw. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diweddar bu cynnydd yn y nifer o fusnesau sydd wedi'u cynnal gan weithredwyr busnes bwyd o darddiad Dwyrain Ewrop a gwahanol ethnigrwydd. Er hynny, mae hyn ond yn berthnasol i ganran fach o fusnesau bwyd yn y Fwrdeistref ac felly mae ond yn effeithio ychydig iawn ar y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn manteisio ar Language line a Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (GCC) i gynorthwyo gyda chyfathrebu pan fo'n briodol. Caiff busnesau hefyd eu cyfeirio at wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd www.food.gov.uk i gaffael pecynnau Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell sydd ar gael mewn sawl iaith er mwyn goresgyn y rhwystr iaith fymryn. Caiff taflenni gwybodaeth aml-iaith eu cyflwyno gyda hysbysiadau, yn ôl yr angen, i gynghori ynghylch pwysigrwydd dogfennau cyfreithiol sydd wedi'u cyflwyno.

Pan fyddwn yn mynd ati i adolygu polisïau a gweithdrefnau, byddwn yn dwyn i ystyriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth lle'n briodol er mwyn sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn nac yn gwahardd unrhyw un.

**Gwneuthurwyr Bwyd**

Yn ogystal â'r safleoedd cymeradwy, mae dau wneuthurwr bwyd eraill yn y Fwrdeistref. Mae'r mwyaf o'r ddau, OP chocolates, yn wneuthurwr ac yn allforiwr danteithion arbennig. Gwneuthurwr cacennau caws bach yw'r cwmni arall.

**Cyfrifoldebau ynghlwm â Bwyd wedi'i Fewnforio** –

Mae Merthyr Tudful yn Awdurdod Lleol mewndirol, ond mae dal ganddi rôl bwysig i'w chwarae o ran cynnal gwiriadau diogelwch bwyd i sicrhau fod y bwydydd wedi'u mewnforio yn bodloni'r gofynion diogelwch bwyd. Mae'n debyg y bydd y rôl hon yn dod yn fwyfwy pwysig o ganlyniad i ymadael â'r UE a gohirio mesurau rheoli ffiniau arfaethedig ar gyfer nwyddau wedi'u mewnforio o'r UE.

Wrth archwilio safleoedd bwyd, mae swyddogion yn talu sylw i darddiad bwydydd sydd wedi'u mewnforio. Bydd y swyddogion yn archwilio unrhyw fwyd lle maen nhw'n amau nad ydyn nhw wedi bod yn destun rheolaethau mewnforio cywir a, lle'n briodol, fe gaiff y bwyd eu diddymu o'r gadwyn fwyd. Mae'n bosibl y bydd bwyd sydd wedi'u mewnforio hefyd yn destun archwiliad fel rhan o'n rhaglen samplo.
Mae effaith gwiriadau o'r fath ar y gwasanaeth yn isel ac nid yw'n peri unrhyw drafferthion.

**Busnesau Tymhorol**

Mae nifer y busnesau tymhorol yn isel ac nid yw'n peri unrhyw drafferthion.

## 2.5 Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodaeth

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodaeth[2]. yn ffurfiol. Roedd y polisi yn amodol ar adolygiad 5 mlynedd yn unol â gofynion y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2019.

Wrth fynd ati i wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gorfodi, byddwn yn dwyn i ystyriaeth y ffactorau canlynol:

- ❖ Difrifoldeb y drosedd
- ❖ Hanes blaenorol y busnes
- ❖ Hyder yn y rheolaeth
- ❖ Canlyniadau peidio â chydymffurfio
- ❖ Effeithiolrwydd tebygol amryw opsiynau gorfodi
- ❖ Agwedd y gweithredwr / perchennog

Mae'r Polisi yn ymdrin ag egwyddorion cymesuredd, targedu, cysondeb, eglurder ac atebolrwydd. Mae'n crybwyll ein dull cyfredol o ran gorfodi'r gyfraith ac mae'n seiliedig ar yr egwyddorion sydd wedi'u mabwysiadu gan y Cod Rheoleiddwyr[3]. At hyn, mae'r polisi yn rhoi sylw i ganllawiau cyfredol y llywodraeth. Gallwch fwrw golwg ar y polisi ar wefan yr Awdurdod Lleol a gallwch

[2] Compliance and Enforcement Policy 2019 (merthyr.gov.uk)
[3] Regulators' Code (publishing.service.gov.uk)

dderbyn copi ar bapur drwy gysylltu gyda Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Adran Iechyd yr Amgylchedd, Y Ganolfan Ddinesig, Heol y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN.

# 3. Cyflawni Gwasanaeth

## 3.1 Ymyriadau Hylendid / Safonau Bwyd

Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) yn caniatáu dull hyblyg o ran gorfodi cyfraith bwyd lle gallai Awdurdodau Bwyd ddefnyddio ystod o ymyriadau i fonitro, ategu a chynyddu cydymffurfiaeth busnes. Mae Gwasanaeth Bwyd Merthyr Tudful yn meddu ar bolisi i sicrhau fod yr holl fusnesau bwyd yn y Fwrdeistref yn derbyn ymyriadau'n unol â Chod Ymarfer y Gyfraith Fwyd (Cymru) a'r Canllaw Ymarfer.

### 3.1.1 Hylendid Bwyd

Mae rheolaethau swyddogol ac answyddogol ynghlwm ag ymyriadau:

**Rheolaethau Swyddogol**

- Archwiliadau
- Monitro
- Cadw Golwg
- Gwirio
- Archwilio
- Samplo lle byddai labordy swyddogol yn cynnal dadansoddiad

**Rheolaethau Answyddogol**

- Gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant
- Casglu gwybodaeth a newyddion (gan gynnwys samplo lle na fyddai labordy swyddogol yn cynnal dadansoddiad neu archwiliad).

Caiff ymyriadau eu cynnal ar sail dull sy'n seiliedig ar risgiau fel y gellir cyfeirio rheoleiddio mwy dwys at y busnesau bwyd hynny sy'n peri'r risg fwyaf i iechyd cyhoeddus.

Yn sgil Covid 19 mae ôl-groniad sylweddol o ymyriadau hwyr ac mae ymyriadau cynllun gwasanaeth eleni yn seiliedig ar y cerrig milltir sydd wedi'u pennu yng ngofynion Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymdrin â'r arweiniad a'r cyngor i awdurdodau lleol ar gyfer y cyfnod o Orffennaf y 1af 2021 hyd at 2023/24. Mae'r Cwestiynau ac Atebion Adfer Awdurdodau Lleol yn sgil COVID-19 yn ategu'r Cynllun Adfer.

Mae'r Cynllun wedi'i rannu'n 2 gyfnod

• Cyfnod 1 – Gorffennaf y 1af hyd at Fedi'r 30ain 2021

• Cyfnod 2 – Hydref y 1af 2021 hyd at 2023/24.

a byddai'n gweithredu fel sylfaen ar gyfer ein gweithgarwch cyfraith bwyd hyd at ddiwedd Mawrth 2023.

**Proffil Sefydliadau**

Mae Tablau 1 a 2 isod yn cynnig proffil o'r safleoedd bwyd yn y Fwrdeistref sydd wedi parhau i fod yn gymharol gyson.

| **TABL 1**<br>**PROFFIL Y SAFLE BWYD O RAN MATH** | |
|---|---|
| **MATH O SAFLE**<br>Categorïau LAEMS (System Monitro Gorfodi Awdurdodau Lleol) | **Nifer y Safleoedd 2022/2023** |
| Dosbarthwyr | 12 |
| Gwneuthurwyr / Pacwyr | 2 |
| Cynhyrchwyr | 2 |
| Lladd-dai | 1 |
| Archfarchnad/goruwchfarchnad | 10 |
| Adwerthwyr bach | 88 |
| Adwerthwyr / eraill | 43 |
| Bwyty/caffi/cantîn | 102 |
| Hostel/gwesty | 12 |
| Tafarn / clwb | 83 |
| Siop Cludfwyd | 85 |
| Sefydliad Gofalu | 70 |
| Ysgol/coleg | 33 |
| Uned fwyd symudol | 29 |
| Bwyty / arlwywr– eraill | 46 |
| **CYFANSWM** | **618** |
| | |

| **CATEGORI** | **Nifer y Safleoedd 2021/2022** | **Nifer y Safleoedd 2022/2023** |
|---|---|---|
| Sgôr Risg A | 0 | 3 |
| Sgôr Risg B | 26 | 25 |
| Sgôr Risg C | 269 | 246 |
| Sgôr Risg D | 66 | 67 |
| Sgôr Risg E | 197 | 222 |
| | | |
| Di-Sgôr | 48 | 40 |

Caiff safleoedd sy'n destun archwiliadau ac ymyriadau bwyd eu sgorio o ran risg. Caiff y sgôr risg ei gyflawni'n unol ag Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru (Gorffennaf 2021). Bydd y sgôr risg yn pennu pa mor aml bydd angen cynnal yr archwiliadau / ymyriadau. Gallai amlder yr

archwiliadau amrywio o unwaith pob 6 mis, os yw'r safle o dan gategori A, i unwaith pob 3 blynedd ar gyfer categori E. Dyma pa mor aml ddylai safle bwyd dderbyn ymyriad yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd:

| **Categori** | **Amlder yr Ymyriadau** |
|---|---|
| **A** | O leiaf unwaith pob 6 mis |
| **B** | O leiaf unwaith pob 12 mis |
| **C** | O leiaf unwaith pob 18 mis |
| **D** | O leiaf unwaith pob 2 flynedd |
| **E** | O leiaf unwaith pob 3 blynedd |

Caiff y gronfa ddata ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau i fusnesau presennol, busnesau newydd sydd wedi cychwyn masnachu a busnesau sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu. Byddwn yn ymweld â busnesau ac yn eu sgorio o ran risg yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd Cymru.

Nod y gwasanaeth bwyd yw cynnal cyfres o archwiliadau ac ymyriadau wedi'u cynllunio mewn safleoedd bwyd yn ystod 2022/23 a hynny yn unol â gofynion cerrig milltir Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**Tabl 3 Crynodeb o'r Rhaglen Waith yn unol â gofynion y Cynllun Adfer ar gyfer 2022 /23 sy'n seiliedig ar risg, dyddiadau'r archwiliadau a llwyth gwaith y flwyddyn flaenorol**

| **Categori Risg** | **Nifer yr Archwiliadau sydd i'w cynnal / sy'n hwyr** | **Nifer yr ymweliadau sydd wedi'u trefnu** | **Math o Ymweliad** |
|---|---|---|---|
| A | 3 | 3 | Archwiliad llawn |
| B | 26 | 26 | Archwiliad llawn |
| C | 215 | 215 | Archwiliad llawn |
| D (diffyg cydymffurfio'n fras)<br><br>D Yn cydymffurfio | 1<br><br>53 | 1<br><br>0<br>(oni bai fod gwybodaeth yn datgan fod angen cynnal archwiliad) | Archwiliad llawn<br><br>Amh |
| E | 168 | 0 (oni bai fod gwybodaeth yn datgan fod angen cynnal archwiliad) | Amh |
| Safleoedd newydd (gan gynnwys y rheiny sydd heb eu sgorio) | 123 | 33 heb eu sgorio ar gychwyn y flwyddyn – amcan o 90 dros flwyddyn | Archwiliad llawn |
| Ail-ymweliadau i'r holl gategorïau (40% o'r archwiliadau) | Amcan o 98 | 98 | Rheolaeth swyddogol – ail-ymweld i wirio cydymffurfiaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Wedi ceisio am ail-sgorio o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Amcan o 20 | 20 | Archwiliad llawn |
| **Cyfanswm** | **679** | **368** | |

### 3.1.2 Safonau Bwyd

Yn draddodiadol, bu Safonau Masnachu'n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd gan gynnwys cyfansoddiad, honiadau labelu, alergeddau, halogiad cemegol, safonau cyfansoddiadol, ychwanegion, bwydydd a chynhwysion wedi'u haddasu'n enetig ac eitemau sy'n dod i gysylltiad â bwyd megis plastigion. Fodd bynnag, fe drosglwyddwyd y gwaith i Wasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn 2014 fel rhan o agenda effeithlonrwydd a hynny heb unrhyw gyllid ychwanegol.

O ganlyniad amlder yr ymyriadau safonau bwyd, yn yr holl achosion ac eithrio rhai, dylid dilyn y sgôr hylendid bwyd a roddwyd gan y byddai hwn gan amlaf yn amlach nac archwiliad safonau a drefnwyd. Byddai hyn yn sicrhau mai dim ond un ymweliad gaiff ei gynnal gydag archwiliad hylendid a safonau'r un amser. Dengys canlyniadau ein harolwg i gwsmeriaid fod busnesau'n gwerthfawrogi ymweliadau gorfodi ac yn dymuno cyfuno swyddogaethau'r Cyngor er mwyn lleihau'r baich ar eu busnesau nhw. Lle bo ymweliad safonau wedi'i drefnu cyn yr ymweliad hylendid (mewn achosion prin) fe gân nhw naill ai eu cynnal ar wahân neu fe gaiff yr archwiliad hylendid ei gynnal yn gynharach fel caiff y ddau archwiliad eu cynnal yr un pryd.

O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd ynghlwm â gofynion labelu ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol a'r gofynion yn ymwneud â rheoli alergeddau fel rhan o system rheoli hylendid bwyd, bu cynnydd sylweddol yn hyd yr archwiliadau. I'r perwyl hwn mewn rhai safleoedd, rhai Categori A neu B o ran safonau'n nodweddiadol, ni chaiff ei ystyried yn ymarferol mwyach i gyfuno'r archwiliadau gan fod hyd yr archwiliadau'n afresymol i'r Swyddog Archwilio a'r gweithredwr busnes bwyd eill dau.

Mae un safle cymeradwy gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef lladd-dy sylweddol a ffatri torri, lle mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am hylendid bwyd yno. Fodd bynnag, tîm iechyd cyhoeddus yr awdurdod lleol sy'n gorfodi'r safonau a'r prosesau labelu.

### 3.1.3 Busnesau Newydd

Bydd y gwasanaeth yn parhau i adnabod busnesau newydd yn rhagweithiol drwy amryw ddulliau h.y. trefniadau arferol gydag adrannau eraill yr Awdurdod Lleol megis Cynllunio, Cyfraddau Busnes, Trwyddedu, Safonau Masnachu a Gwasanaethau'r Amgylchedd yn ogystal â manteisio ar wybodaeth leol a chadw golwg ar wefannau cyfryngau cymdeithasol.

Caiff yr holl fusnesau newydd eu cofnodi ar y cronfeydd data safleoedd newydd a Tascomi a rennir. Cyn gynted ag y byddwn yn canfod busnes newydd neu os byddai perchennog newydd yn cymryd yr awenau dros fusnes, byddwn yn anfon dolen i ffurflen gofrestru ar-lein ar gyfer safleoedd bwyd  (neu byddan nhw'n derbyn copi ar bapur os na allan nhw fanteisio ar y rhyngrwyd), holiadur gorfodi diogelwch bwyd a gwybodaeth am y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd fel mater o drefn.

Unwaith inni dderbyn ffurflen gofrestru / holiadur busnesau newydd fe gaiff y busnes eu sgorio ar fwrdd gwaith drwy system sgorio Coch / Melyn / Gwyrdd (RAG) sy'n categoreiddio'r busnesau fel rhai risg uchel/canolig/isel o ran blaenoriaethu archwiliadau.

Mae'n amhosibl rhagweld faint o fusnesau newydd fydd yn agor neu'n newid dwylo ond gan ddwyn i ystyriaeth data hanesyddol, mae'r tîm fel arfer yn archwilio oddeutu 90 o fusnesau bwyd pob blwyddyn.

Mae hefyd yn bwysig nodi fod nifer o'r busnesau newydd yn methu'n ystod eu blwyddyn gyntaf yn masnachu. Bu hyn yn wir yn enwedig yn ystod y Pandemig Covid wrth i unigolion ar y cynllun swyddi arallgyfeirio a rhoi cynnig ar sefydlu busnes newydd. Fe gaeodd y busnesau hynny wedyn wrth iddyn nhw ddychwelyd i'w rolau parhaol. Yn ei dro, cafodd hyn effaith gynyddol ar y rhaglen archwilio a ni chaiff y gwaith hwn ei adlewyrchu yn ein ffigyrau adroddadwy cyffredinol. Mae safleoedd symudol yn dal yn peri problem benodol, gan fod y gwasanaeth yn buddsoddi llawer yn y busnesau hyn ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu'n ystadegau diwedd y flwyddyn gan fod sawl un yn rhoi'r gorau i fasnachu ymhen ychydig fisoedd.

At hyn, mae'r Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) yn nodi y dylai holl fusnesau bwyd newydd dderbyn archwiliad ymhen 28 diwrnod wedi iddyn nhw agor neu gofrestru eu busnes. Mae hyn yn parhau i fod yn her i'w gyflawni yn sgil trosiant safleoedd. Mae'r Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd yn datgan "lle credir bod safle yn cynnal gweithgareddau bwyd risg uchel, dylai'r Awdurdod gynnal archwiliad cychwynnol ymhen 28 diwrnod o'r dyddiad y mae'r busnes ar waith". Bydd y gwasanaeth yn parhau i gynnal asesiadau risg ynghylch busnesau newydd ar eu bwrdd gwaith, yn eu sgorio gan ddefnyddio'r system RAG ac yn blaenoriaethu archwilio busnesau newydd ar sail yr wybodaeth ar y ffurflen gofrestru safleoedd bwyd, holiadur gorfodi diogelwch bwyd a/neu wybodaeth leol. Bydd y gwasanaeth yn mynd ati i archwilio'r busnesau hynny a allai beri'r risg uchaf yn gyntaf.

### 3.1.4 Ail-ymweliadau

Mae ail-ymweliadau yn rhan hanfodol o unrhyw raglen ymyrraeth effeithiol a bu i'r gwasanaeth fabwysiadu Polisi Paneli Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan ynghylch cynnal ail-ymweliadau.

- **Hylendid Bwyd** – Caiff ail-ymweliadau a chamau gweithredu dilynol priodol eu cyflawni ym mhob safle Categori A a B a phob safle lle nad ydyn nhw'n cydymffurfio'n fras â'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Bydd amseriad yr ail-ymweliad yn dibynnu ar natur y tramgwyddau bwyd sydd wedi'u hadnabod ac yn unol â'r polisi ail-ymweld. At hyn, o ganlyniad cynnal archwiliad penodol ar 3 safle wedi'u sgorio bu i'r gwasanaeth ganfod nad oedd busnesau gyda methiannau rheoli diogelwch bwyd, doedden ni heb ail-ymweld â nhw, yn dueddol o weithredu'r gwelliannau angenrheidiol. Yn ei dro, bu i sgôr y safleoedd hyn ostwng i'r sgôr 'diffyg cydymffurfio'n fras' yn ystod yr ymweliad nesaf oedd wedi'i drefnu. Bydd Swyddogion felly yn gweithredu fel maen nhw'n ei weld yn ddoeth ac yn ail-ymweld â rhai safleoedd sydd wedi'u pennu fel eu bod yn cydymffurfio'n fras er mwyn lliniaru unrhyw ddiffyg cydymffurfio / sgorau hylendid bwyd isel yn y dyfodol. Pan fo'n briodol, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal ymweliadau gorfodi pellach, yn ogystal â chamau cyfreithiol mewn rhai achosion.
- Mae'n anodd cynnig union nifer yr ail-ymweliadau ond gan fwrw golwg ar ddata blaenorol, gallwn ragweld y bydd angen cynnal oddeutu 70 o ail-ymweliadau hylendid bwyd. Dim ond 43 o ail-ymweliadau a gynhaliwyd yn 2021/22, fodd bynnag roedd hyn i'w briodoli i'r nifer is o ymweliadau a gynhaliwyd. Mae disgwyl i'r ffigwr hwn gynyddu yn

ystod blwyddyn gwasanaeth 2022/23 yn sgil y lefelau o ddiffyg cydymffurfio, y cynnydd mewn Hysbysiadau Gwella Hylendid a'r cynnydd yn y nifer o sgorau hylendid diffyg cydymffurfio'n fras sydd wedi'u cyflwyno.

- **Safonau Bwyd** – O ran hylendid bwyd lle mae achosion sylweddol o dorri deddfwriaeth safonau bwyd wedi'i nodi, byddwn yn cynnal ail-ymweliadau a chamau gorfodi dilynol yn unol â'r polisi ail-ymweld.

### 3.1.5 Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r gwasanaeth yn ymrwymo i'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (FHRS) sydd â'r nod o hyrwyddo dewisiadau prynwyr.

Bu'r nifer o apeliadau yn erbyn y sgôr a dderbyniwyd yn gymharol isel yn 2021/22 gyda dim ond 1 Apêl wedi'i gyflwyno. Yn ystod chwarter cyntaf 2022, rydym wedi derbyn 2 Apêl eisoes ac mae disgwyl y bydd y nifer yn cynyddu wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi a hynny yn sgil y cynnydd mewn sgorau diffyg cydymffurfio'n fras gan y Swyddogion.

Bu cynnydd yn y llwyth gwaith yn sgil y cynllun a hynny o ganlyniad ceisiadau am ail-sgorio; fe gynhaliwyd 19 ymweliad ail-sgorio yn 21/22 ac rydym wedi derbyn 6 cais eisoes yn ystod chwarter cyntaf 2022/23. Eto, mae disgwyl y bydd y nifer o geisiadau am ail-sgorio yn cynyddu o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol a hynny oherwydd y dirywiad cyffredinol mewn safonau hylendid bwyd yn sgil effaith y pandemig.

Er mwyn cadw hygrededd mae hefyd yn angenrheidiol inni blismona'r cynllun i sicrhau caiff sgorau eu harddangos yn gywir. Y llynedd bu inni gyflwyno 3 hysbysiad cosb benodedig am fethu ag arddangos sticer sgôr hylendid bwyd dilys. Rydym eisoes wedi cyflwyno 3 hysbysiad cosb benodedig yn ystod chwarter cyntaf 2022/23.

**Yr Adnoddau Amcangyfrifedig sydd ei Angen i gynnal Ymyriadau Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd yw 3.1 Cyfwerth ag Amser Llawn**

## 3.2 Cwynion Bwyd

Mae ymchwilio i gwynion bwyd yn rhan annatod o waith y Gwasanaeth Bwyd Iechyd yr Amgylchedd. Mae'r gwasanaeth yn meddu ar bolisi i ymchwilio i bob cwyn am fwyd maen nhw'n ei dderbyn sy'n ymwneud â bwyd anaddas, drwg neu afiach gaiff ei werthu a'i gynhyrchu yn ein hardal. Rydym hefyd yn ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud a labelu a chyfansoddiad bwyd ynghyd â chwynion am amodau anfoddhaol mewn safleoedd bwyd.

Rydym yn ymchwilio i gwynion yn unol â'r weithdrefn Cwynion Bwyd a Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). Yn ymarferol, mae hyn yn golygu fod swyddog yn asesu'r holl gwynion bwyd unwaith iddyn nhw eu derbyn cyn penderfynu ar y camau gweithredu priodol. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth yn derbyn cwynion gan aelodau'r cyhoedd neu drwy wasanaeth atgyfeirio cwynion Llywodraeth Leol ar-lein yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Caiff manylion y ceisiadau gwasanaeth eu cofnodi ar y Gronfa Ddata TASCOMI.


Mewn amgylchiadau pan fo'r bwyd, sy'n destun cwyn, wedi'i gynhyrchu y tu hwnt i'r Fwrdeistref Sirol caiff manylion y gŵyn hefyd eu cyfeirio at yr Awdurdod Gwreiddiol, Cartref a/neu'r Awdurdod Sylfaenol. Pan fo preswylydd o'r Fwrdeistref yn prynu bwyd mewn ardal Awdurdod Lleol arall, caiff y bwyd ei gasglu a'i gyfeirio at yr Awdurdod Lleol priodol i'w ymchwilio.

Gallai ymchwilio i gwynion hefyd ymwneud â chynnal dadansoddiad microbiolegol neu gemegol ac mae gan hyn oblygiadau ariannol i'r gwasanaeth.

Rydym yn gweithredu fel awdurdod cartref ar ran un gwneuthurwr yn yr ardal ac felly rydym yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion sy'n gysylltiedig â'r safle hwnnw.

Bu i gwynion aros yn gyson yn ystod y blynyddoedd diweddar fel y dangosir yn y graff isod.

**Cyfanswm y Cwynion Bwyd a Dderbyniwyd 2018/19 – 2021/22**




Yn ystod 2021/22 fe dderbyniwyd cyfanswm o 62 cwyn yn ymwneud â hylendid bwyd, 12 yn ymwneud â bwyd a 50 yn ymwneud â hylendid safleoedd. Derbyniwyd 4 cwyn pellach am broblemau safonau bwyd. Ymchwiliwyd i'r holl gwynion hyn ac fe weithredwyd camau gorfodi yn unol â pholisi gorfodi diogelwch bwyd yr Awdurdod Lleol.

**Yr Adnoddau Amcangyfrifedig sydd ei Angen i gyflawni'r gwasanaeth hwn yw 0.3 Cyfwerth ag Amser Llawn**

## 3.3 Egwyddor Awdurdod Cartref / Cynllun Awdurdod Sylfaenol

### 3.3.1 Egwyddor Awdurdod Cartref

Mae'r Egwyddor Awdurdod Cartref yn berthnasol i fusnesau lle mae eu sylfaen 'gwneud penderfyniadau' yn y Fwrdeistref a lle mae eu penderfyniadau'n cael effaith cenedlaethol neu ryngwladol. Mae'r egwyddor yn cynnig dull ar gyfer cyfathrebu effeithlon rhwng Awdurdodau sydd â busnesau aml-safle. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful bolisi ar waith i weithredu'r Egwyddor Awdurdod Cartref yn unol â'r canllaw sydd wedi'i gyflwyno. Dydy'r Awdurdod Lleol ddim yn meddu ar drefniadau ffurfiol ar y cyd â'r gwneuthurwyr yn y Fwrdeistref, fodd bynnag maen nhw'n gweithredu'n anffurfiol fel awdurdod cartref ar gyfer 1 gwneuthurwr sylweddol.

At hynny, bydd y gwasanaeth yn cyflawni'r canlynol:-

- Cynnig cyngor i holl fusnesau Awdurdod Cartref ynghylch materion sy'n ymwneud â bwyd, naill ai pan fyddan nhw'n gofyn am gyngor neu fel ymateb i arallgyfeiriad gan Awdurdod Lleol arall.

- Ystyried unrhyw wybodaeth neu gyngor mae wedi'i dderbyn yn sgil cyfathrebu gydag Awdurdodau cartref a/neu wreiddiol.

- Unwaith y byddai wedi cychwyn cyfathrebu gydag unrhyw Awdurdod cartref a/neu gwreiddiol, hysbysu'r Awdurdod hwnnw o'r canlyniad.

### 3.3.2 Cynllun Awdurdod Sylfaenol

Mae Awdurdod Sylfaenol yn fodd i fusnesau gaffael cyngor cyson ynghylch cydymffurfio gyda rheoliadau gan awdurdodau lleol. Gallai'r Awdurdod Sylfaenol gyfarwyddo yn erbyn camau gorfodi os yw'n anghyson â'r cyngor pendant a dderbyniwyd. Mae'r cynllun yn un statudol ac fe'i sefydlwyd gan y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008. Bydd y gwasanaeth yn cyflawni'r canlynol:

- Ymgynghori gyda'r Awdurdod Sylfaenol pan fo gan y gwasanaeth bryderon ynghylch cydymffurfiaeth busnes aml-safle sy'n gweithredu yn y Fwrdeistref.

- Ystyried unrhyw gyngor neu gynllun ymchwilio y mae Awdurdod Sylfaenol yn eu cyflwyno.

- Hysbysu'r Awdurdod Sylfaenol am unrhyw gamau gorfodi arfaethedig.

Dydy'r Gwasanaeth heb feithrin perthynas Awdurdod Sylfaenol gydag unrhyw fusnes ym Merthyr Tudful, fodd bynnag gan fod mwyfwy o fusnesau Cenedlaethol yn ceisio datblygu partneriaethau Awdurdod Sylfaenol gydag Awdurdodau Lleol yng Nghymru, mae'n faes gwasanaeth rydym yn dymuno'i ddatblygu pe bai cyllid yn caniatáu inni wneud hynny.

## 3.4 Cyngor i Fusnesau

Bydd y pwynt cyswllt yn cynnig cyngor busnes i holl fusnesau ac mae'r gwasanaeth yn dal yn gwbl rhad ac am ddim.

At hyn, byddwn yn mynd ati i geisio cynorthwyo busnesau lle'n bosibl gan rannu cyngor diogelwch bwyd drwy amryw ddulliau, gan gynnwys:-

- Cynnig cyngor fel rhan o'r broses ymyrraeth;
- Cyflwyno amryw daflenni gwybodaeth mewn nifer o wahanol ieithoedd;
- Cynnig hyfforddiant a seminarau'n amodol ar gyllid allanol.
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol, megis yr Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd;
- Cynnig cyngor i drefnwyr digwyddiadau;
- Cynnig cyngor fel ymateb i geisiadau cynllunio ac yn dilyn derbyn Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro lle'n briodol;

- Pan gaiff deddfwriaeth neu ganllaw newydd ei gyflwyno, byddwn yn cynnig gwybodaeth yn y modd mwyaf effeithiol i'r grwpiau targed priodol e.e. mail shot, gweithdai/seminarau;
- Sesiynau hyfforddi unigryw ar gyfer busnesau yn amodol ar gyllid allanol e.e. grant i wella cyfleusterau bwyd a diod canol trefi.
- Hyfforddiant unigryw pan fo archwiliadau'n datgan fod busnesau'n trafferthu i ddeall a bodloni gofynion cyfreithiol penodol e.e. rheoli alergeddau neu fusnesau gyda sgôr Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd isel
- Manteisio ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor.
- Cydweithio gyda thîm adfywio'r Awdurdod Lleol i gynnig cyngor i fusnesau sydd wedi derbyn cyllid cymorth grant.

Rydym yn parhau i ategu a hyrwyddo Pecyn Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gynorthwyo busnesau i gydymffurfio gyda gofynion Erthygl 5. Yn ystod 2021/22 bu i'r gwasanaeth ymateb i 51 o geisiadau am gyngor Hylendid / diogelwch gan fusnesau bwyd a 5 cais am gyngor yn ymwneud â safonau bwyd.

### 3.4.1 Hylendid Bwyd a Hyfforddiant Arall

Dydy'r gwasanaeth ddim yn meddu ar yr adnoddau priodol i allu cynnal cyrsiau hylendid bwyd oherwydd gaiff y ddarpariaeth hon ei diwallu'n fwy effeithiol gan y sector preifat. Mae hyn yn fodd i Swyddogion y Tîm ganolbwyntio ar ddyletswyddau craidd statudol yr Awdurdodau sy'n ymwneud â gorfodi diogelwch bwyd. Caiff Hyfforddiant arall sy'n ymwneud â materion Cyfraith Bwyd ei hwyluso pan fo galw amdano a phan fo adnoddau ar gael i'w gynnal. Lle'n briodol, bydd y Cynghorau'n ysgrifennu at weithredwyr busnesau bwyd yn yr ardal gan amlygu'r cyfleoedd hyfforddiant a allai fod yn berthnasol i'w busnes bwyd nhw.

## 3.5 Samplo Bwyd

Byddwn yn mynd ati i samplo er dibenion Hylendid Bwyd (yn dilyn gwyliadwriaeth ac wedi'i dargedu) er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a gwella ansawdd microbiolegol bwyd. Fel rhan o'r gwaith, mae gofyn i'r gwasanaeth gynnal rhaglen samplo addas a digonol fel rhan o'r trefniant fframwaith rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Mae'r canlynol ynghlwm â'r rhaglen samplo:

a) Rhaglen Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru (WFMF);
b) Iechyd Cyhoeddus Cymru (lle'n briodol);
c) Samplo sy'n seiliedig ar risg;
d) Samplo ar sail gwybodaeth;
e) Bwydydd wedi'u mewnforio (lle'n briodol).

Mae'r rhaglen samplo rhagweithiol yn seiliedig ar ddyraniad ariannol cenedlaethol sydd ynghlwm â'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr Awdurdod Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gan Ferthyr Tudful ddyraniad sydd gyfwerth â £6044.00 ar gyfer 2022/23. Mae'r dyraniad samplo yn gysylltiedig i holl samplau bwyd, dŵr ac amgylcheddol y mae angen archwiliad microbiolegol arnyn nhw. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ariannu samplau sydd y tu hwnt i'r lwfans hwn oni bai eu bod yn gysylltiedig yn benodol ag archwiliad achos.

Mae'r Gwasanaeth yn chwarae rhan weithgar yn Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru. Prif gryfderau'r Fforwm yw'r gallu i lunio rhaglen samplo bwyd cyd-gysylltiedig ar gyfer Cymru gyfan, sy'n fodd o safoni protocolau, cronni data a rhannu gwybodaeth sy'n deillio ohoni. Ar Ebrill y 1af 2022, mae rhaglen samplo basged siopa Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru (WFMF) wedi'i chwblhau ac mae copi ynghlwm ag **Atodiad 3.**

Yn ystod 2020/21 a 2021/22 bu i'r pandemig COVID-19 effeithio ar weithgarwch samplo oherwydd fe gafodd adnoddau eu harallgyfeirio i fynd i'r afael â COVID-19. Mae'r nifer a'r mathau o samplau caiff eu casglu ar gyfer dadansoddi yn amrywio fesul blwyddyn. Mae hyn yn rhannol yn sgil faint o bobl sydd ar gael i gasglu samplau a'u cludo i labordai yn ogystal â digwyddiadau anrhagweladwy megis achosion o wenwyn bwyd. Caiff samplau eu casglu yn rheolaidd unwaith pob pythefnos fel arfer, fodd bynnag bydd gweithgarwch samplo'n llai rheolaidd eleni.

Bydd yn rhaid mynd i'r afael gyda samplau â chanlyniadau gwael hefyd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth, gan gynnal archwiliad fel arfer i ganfod sut ddigwyddodd y methiant. Gan fod safle'r cynhyrchydd neu wneuthurwr y bwyd y tu hwnt i'r Fwrdeistref gan amlaf, bydd angen mynd ati i gyfathrebu gydag Awdurdodau Lleol eraill.

Mae samplau lle mae angen dadansoddiad cemegol neu adnabod sylweddau dieithr, yn gysylltiedig â chwynion fel arfer ac fe gân nhw eu cyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus a benodwyd gan yr Awdurdod Lleol ac sydd wedi'u talu'n unigol.

Caiff cynigion am gyllid ychwanegol i gyflawni prosiectau samplo lleol neu gydweithredol eu cyflwyno hefyd pan fo cyllid ar gael.

Mae gofyn i'r awdurdod lleol lunio cynllun samplo, fel sy'n **Atodiad 4**, a hynny gan ymgynghori gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rhaglen samplo'n ymwneud â dull sy'n seiliedig ar risg a byddwn ond yn cymryd samplau ag arwyddocâd iechyd cyhoeddus. Dyma'r gweithgarwch sydd ynghlwm â'r rhaglen samplo arfaethedig: -

- Arolwg basged siopa Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru (WFMF), sy'n rhaglen gwyliadwriaeth barhaus ond fe gaiff ei ohirio pan fo arolygon Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru penodol ac wedi'u targedu ar waith.

- Cymryd rhan mewn rhaglenni samplo rhagweithiol ac wedi'u strwythuro sydd wedi'u cydlynu gan Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru, Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, arolygon Asiantaeth Diogelu Iechyd a Rheoleiddio Llywodraeth Leol.

- Cymryd samplau yn ystod archwiliad gwenwyn bwyd.

- Cymryd samplau fel ymateb i angen lleol a fyddai'n cynnwys samplau bwyd ac amgylcheddol wedi'u cymryd yn ystod archwiliadau, yn dilyn derbyn cwynion.

Ar gychwyn y flwyddyn, mae'n anodd pennu faint yn union o samplau gaiff eu cymryd o bob un o'r categorïau uchod.

Dyma rai o'r samplau eraill gaiff eu cymryd nad yw'n samplau bwyd:

- Samplau dŵr yfed o ganlyniad i gŵyn neu fel rhan o archwiliad.

- Cyflenwadau dŵr preifat

- Dyfroedd pwll nofio er dibenion dilysu
- Dyfroedd hamdden
- Samplau amgylcheddol e.e. swabiau o gyfarpar, arwynebau ac ati, sydd wedi'u cymryd fel rhan o archwiliad.

Mae amseriad a nifer y samplau'n fras ac fe allan nhw amrywio o gymharu â'r cynllun. Caiff arolygon a samplo ychwanegol i ddiwallu'r angen lleol eu cynnal drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod fod samplo'n ategu'r gwaith i ddiogelu Iechyd Cyhoeddus a swyddogaeth gorfodi'r Gyfraith Fwyd.

O ganlyniad, bydd Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithredu eu polisi o gymryd samplau bwyd yn y sefyllfaoedd canlynol:-

- Cymryd rhan mewn arolygon/rhaglenni sydd wedi'u cydlynu'n Genedlaethol, Rhanbarthol a lleol.
- Gan gynhyrchwyr bwyd lleol.
- Samplau Awdurdod Cartref / gwreiddiol
- Fel ymateb i gwynion
- Er mwyn monitro prosesau
- Fel rhan o archwiliadau / mentrau arbennig
- Yn ystod archwiliadau er mwyn dilysu effeithiolrwydd systemau rheoli diogelwch bwyd
- Asesu gwydnwch cynnyrch
- Ar gyfer prosesau gwyliadwriaeth/sgrinio

Er mwyn cyflawni'r uchod bydd y gwasanaeth bwyd yn:-

a) Cydymffurfio gyda gofynion Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Statudol (Cymru).

b) Dwyn i ystyriaeth cyfarwyddyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chanllawiau'r diwydiant.

c) Pe bai adnoddau'n caniatáu, cymryd rhan mewn mentrau samplo rhanbarthol a chenedlaethol wedi'u cyflwyno gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru, Grŵp Amaethyddol a Safonau Bwyd, Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (WhoTS), Grŵp Bwyd Safonau Masnach Bro Morgannwg, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Grwpiau Tasg Diogelwch Bwyd.

ch) Pan fo angen archwiliad microbiolegol, anfon samplau i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn Ysbyty Llandochau Fach, Penarth sy'n cynnig gwasanaeth archwilydd bwyd ffurfiol.

d) Pan fo angen dadansoddi samplau am sylweddau dieithr, halogiad cemegol, cyfansoddiad ac ati, caiff samplau eu hanfon at y Dadansoddwr Cyhoeddus a benodwyd gan yr Awdurdod Lleol neu labordy priodol arall.

dd) Llunio rhaglen samplo ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd. Mae'r rhaglen hylendid bwyd yn "ddogfen fyw" ac fe gaiff ei diweddaru'n fisol mewn ymgynghoriad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

e) Ymateb i gyfeiriadau o ganlyniadau anfoddhaol sy'n deillio o raglen Samplo Gwyliadwriaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**3.5.1 Samplau Hylendid Bwyd**

Yn sgil effaith y pandemig COVID-19 ar y gwasanaeth, ni chymerwyd unrhyw samplau microbiolegol yn ystod 2021/22. Bydd y gwasanaeth yn ail-gychwyn ei raglen samplo microbiolegol yn 2022/23 yn unol â gofynion Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ogystal â chymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru (**Atodiad 3**). Amcangyfrifir caiff oddeutu 100 o samplau eu cymryd, os bydd adnoddau'n caniatáu. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oes yna unrhyw arolygon microbiolegol eraill wedi'u cwblhau.

Gellir cyflwyno samplau wedi'u cymryd mewn cysylltiad â chwynion ac achosion honedig o wenwyn bwyd ac ati ar unrhyw adeg.

Caiff perchnogion eu hysbysu bob amser pan fo samplau'n cynhyrchu canlyniad anfoddhaol a hynny'n unol â gweithdrefn a pholisi samplo bwyd y gwasanaeth. Yna byddwn yn cymryd camau i adnabod y rheswm dros y canlyniad anfoddhaol ac yn cymryd samplau dilynol fel sy'n briodol.

**3.5.2 Samplau Safonau Bwyd**

Caiff samplau Safonau Bwyd (ar eu menter eu hun ac wedi'u targedu) eu cymryd i sicrhau fod bwyd yn bodloni'r gofynion diogelwch a'r meini prawf deddfwriaethol penodol sydd ynghlwm â'r ddeddfwriaeth safonau bwyd a'i fod wedi'i labelu a'i ddisgrifio'n gywir.

Fel rhan o raglen effeithlonrwydd y Cyngor, does dim cyllideb benodol wedi'i neilltuo ar gyfer samplo erbyn hyn. Caiff samplo ond ei gyflawni pan fo gwybodaeth leol yn awgrymu bod angen gwneud hynny, er mwyn ymateb i gwynion, neu pan fo cyllid allanol ar gael i gymryd rhan mewn arolygon wedi'u targedu.

Yn 2022/2023, mae'r gwasanaeth unwaith eto yn bwriadu cymryd rhan yng ngwaith prosiect samplo Grwpiau Bwyd Safonau Masnach Bro Morgannwg, pe bai digon o adnoddau ac os oes modd ennill cyllid samplo drwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Nid yw manylion y prosiect wedi'u cwblhau eto ond ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, rydym yn amcan caiff oddeutu **15 o samplau** eu caffael. Caiff samplau safonau bwyd eu casglu mewn blociau fel rhan o'r rhaglen wedi'i dargedu. Fodd bynnag gellir cyflwyno samplau sy'n gysylltiedig â chwynion unrhyw bryd. Mae'n anodd rhagweld y nifer o samplau sy'n gysylltiedig â chwynion y byddwn ni'n eu derbyn.

Caiff perchnogion eu hysbysu bob amser pan fo samplau'n cynhyrchu canlyniad anfoddhaol a hynny'n unol â gweithdrefn a pholisi samplo bwyd y gwasanaeth. Yna byddwn yn cymryd camau i adnabod y rheswm dros y canlyniad anfoddhaol ac yn cymryd samplau dilynol fel sy'n briodol.

**Mae'r awdurdod wedi penodi'r canlynol er dibenion dadansoddi bwyd:**

**Dadansoddwr Bwyd** – Bu i'r Fwrdeistref Sirol benodi Mr Alistair Low o Alastair Low, B.Sc.(Anrh), M.Sc., M.Chem.A., C.Chem Minton, Treharne & Davies (MTD) Long Wood Drive, Caerdydd, CF14 7Hy i weithredu fel Dadansoddwr Cyhoeddus ar ran yr Awdurdod, fel sy'n ofynnol o dan Adran 27 y Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Codir tâl ar yr Awdurdod Lleol am y gwasanaeth hwn.

**Archwiliwr Bwyd** – Mae'r Awdurdod hefyd yn rhwym i gytundeb gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cynnig dadansoddiad microbiolegol a gwasanaeth cyngor. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith yn Adran Microbioleg, Ysbyty Llandochau Fach, Heol Penlan, Penarth, Bro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn amodol ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) ffurfiol sy'n pennu'r cyllid gaiff ei ddyrannu i'r Awdurdod Lleol a'r mathau o samplau y gellir eu cyflwyno ynghlwm â'r dyraniad hwnnw.

**Campden BRI**- Mae'r Awdurdod Lleol yn aelod o Campden BRI o Chipping Campden, Swydd Gaerloyw sy'n cynnig cyngor ar amryw faterion arbenigol yn ymwneud â bwyd, fel sy'n briodol. Mae gwasanaethau dadansoddol hefyd ar gael ac fe godir tâl am bob sampl a gyflwynir.

**Yr Adnoddau Amcangyfrifedig sydd ei Angen i gynnal gwaith samplo Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd yw 0.2 Cyfwerth ag Amser Llawn**

## 3.6 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

Mae Cangen Digwyddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymdrin â digwyddiadau o halogiad amgylcheddol a allai effeithio ar y gadwyn fwyd.

Gallai'r holl swyddogion bwyd fanteisio ar y rhyngrwyd a'r cyfleusterau e-bost. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fanylion cyswllt y swyddogion i allu rhannu hysbysiadau gyda nhw'n uniongyrchol drwy eu hadnodd Smarter Communications ac mae ganddyn nhw hefyd fanylion cyswllt y Swyddog Arweiniol dros ddiogelwch Bwyd.

Mae'r gwasanaeth yn ymateb i'r holl Rybuddion Bwyd a Hysbysiadau gwybodaeth i Dynnu Cynnyrch yn ôl / Adalw Cynnyrch yn unol â'r cyngor a'r cyfarwyddyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Chodau Ymarfer y Gyfraith Bwyd.

Caiff lefel y camau gweithredu ei bennu gan y Categori sydd ynghlwm â'r rhybudd a'i berthnasedd â'r safle a'r bwyd sydd ar werth yn y Fwrdeistref Sirol.

Caiff Hysbysiad gwybodaeth Tynnu Cynnyrch yn ôl neu Hysbysiad Adalw Cynnyrch ei gyflwyno pan fo ateb i'r broblem mewn lle; mae'r cynnyrch wedi neu'n cael ei dynnu'n ôl rhag ei werthu neu ei adalw gan brynwyr, er enghraifft. Caiff Rhybudd Bwyd ar gyfer Gweithredu ei gyflwyno pan fo angen ymyriad gan awdurdodau gorfodi. Mae'r cynnyrch diweddaraf i'w dynnu'n ôl / adalw wedi'u rhestru ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac fe gân nhw eu rhannu'n rheolaidd ar eu gwefannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae ein gwasanaeth yn gwneud mwyfwy o ddefnydd o dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor i rannu hysbysiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ynghylch Hysbysiadau Gwybodaeth Tynnu Cynnyrch yn ôl ac Adalw Cynnyrch.

Caiff rhybuddion lle mae angen camau gweithredu adweithiol sylweddol eu cyflwyno'n achlysurol ac yn afreolaidd. Caiff adnoddau digonol eu neilltuo i ymdrin â phob rhybudd pan maen nhw'n codi, fodd bynnag mae'n bosibl y bydd angen arallgyfeirio o'r rhaglen waith sydd wedi'i chynllunio.

Yn ystod cyfnod 2021/22 bu i ein gwasanaeth dderbyn 2 gais uniongyrchol i weithredu gan dîm digwyddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

Yn ystod chwarter cyntaf 2022/23, cafwyd un rhybudd bwyd i weithredu yn ymwneud ag adalw cynnyrch Kinder Egg. Fel rhan o'r ymateb, aeth y gwasanaeth ati i hyrwyddo'r hysbysiad ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol, anfon yr hysbysiad drwy'r post at holl adwerthwyr bach a chynnal ymweliadau dilysu safleoedd i sicrhau fod adwerthwyr wedi mynd ati i gyflawni camau gweithredu priodol fel ymateb i'r rhybudd adalw.


Mae'n anodd rhagweld y nifer o geisiadau am weithredu yn sgil digwyddiadau gan gaiff ei lywodraethu gan ffactorau allanol sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth. Gan ddwyn i ystyriaeth data hanesyddol, amcangyfrifir fod y gwasanaeth yn derbyn oddeutu 2-3 cais am weithredu pob blwyddyn.

**Yr Adnoddau Amcangyfrifedig sydd ei Angen i gynnal y gwasanaeth hwn yw 0.10 Cyfwerth ag Amser Llawn**

## 3.7 Cyfathrebu gyda Mudiadau Eraill

Mae Gwasanaeth Bwyd Iechyd yr Amgylchedd yn ymdrechu i sicrhau bod eu gweithrediadau'n gyson â gweithrediadau Awdurdodau Lleol cyfagos.

Caiff cyfathrebu rhwng yr Awdurdodau Lleol ei hwyluso drwy nifer o grwpiau a phaneli:



Dyma'r cyfathrebu rhanbarthol a chenedlaethol fel a ganlyn:-

| Aelodau'r Grŵp | Amlder y Cyfarfodydd / fesul blwyddyn (Oddeutu) |
|---|---|
| Grŵp tasg Diogelwch Bwyd De Ddwyrain Cymru | 5 |
| Grŵp tasg clefydau trosglwyddadwy De Ddwyrain Cymru | 6 |
| Grŵp Bwyd Bro Morgannwg (safonau) | |
| Panel Arbenigol a grŵp ymgynghorol Diogelwch Bwyd Cymru gyfan | 6 a phan fo'n briodol |
| Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru | 2 |
| Grŵp llywio cynllun sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol Cymru | 3 |
| Iechyd yr Amgylchedd Cymru | 5 |
| Grŵp gwaith Allforion Cenedlaethol | 4 |

Caiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful eu cynrychioli yng nghyfarfodydd Grwpiau Tasg Rhanbarthol Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy, Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru gyfan, Iechyd yr Amgylchedd Cymru a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru. Mae'r Prif Swyddog a'r Swyddog Arweiniol Diogelwch Bwyd hefyd yn cymryd yr awenau fel Ysgrifennydd Panel Arbenigol Diogelwch Bwyd Cymru gyfan hefyd.

Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â'r cyrff canlynol: -

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy;
- Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, y Gymdeithas Iechyd Brenhinol, a Sefydliad Brenhinol Iechyd a Hylendid Cyhoeddus;
- Cyfathrebu gyda Gwasanaethau eraill y Cyngor, megis Cynllunio, Rheoli Adeiladu, Addysg, Gwasanaeth Prydau i Ysgolion, Gwasanaethau Cymdeithasol, Adfywio, Caffael;
- Llywodraeth Cymru;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Cyllid a Thollau E M;
- Y Swyddfa Gartref;
- Cyswllt gydag ac ymrwymiad i Wella Rheoleiddio;
- Grŵp Amaethyddiaeth a Safonau Bwyd;
- Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd.

**Yr Adnoddau Amcangyfrifedig sydd ei Angen i gyflawni'r swyddogaeth hyn yw 0.10 Cyfwerth ag Amser Llawn**

## 3.8 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau bwyd

Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus yn ymroi i hyrwyddo diwylliant diogelwch bwyd cadarnhaol drwy amryw ddulliau. Mae rhai o'r rheiny wedi'u hariannu'n allanol ac nid ydynt ar gael bob amser.

- Cynnig cyngor a gwybodaeth i fusnesau ac aelodau'r cyhoedd drwy archwiliadau, cwynion a hysbysiadau;
- Cynnig cyrsiau hyfforddiant Hylendid Bwyd mewn amryw ieithoedd;
- Cynnig cyrsiau hyfforddiant mewn ieithoedd eraill yn seiliedig ar angen lleol;
- Taflenni am faterion bwyd mewn gwahanol ieithoedd;
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol megis Wythnos Diogelwch Bwyd;
- Hyrwyddo Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd;
- Canllaw i gynorthwyo busnesau mewn sectorau penodol megis gofalwyr plant a masnachwyr symudol;
- Cyngor drwy wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor gan gynnwys dolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill;
- Addysg, cyngor a seminarau wedi'i dargedu mewn amryw ieithoedd;
- Cyhoeddiadau papur newydd megis cylchgrawn Contact a gaiff ei ddosbarthu i bob cartref yn y Fwrdeistref;
- Cydweithio gyda chydweithwyr eraill sy'n gyfrifol am Adfywio a chanol y dref er mwyn hyrwyddo a gwella diogelwch bwyd mewn busnesau a digwyddiadau lleol.
- Hyfforddiant a chyngor unigryw i fusnesau unigol.

Yn ystod 2020/21 bu i'r gwasanaeth gynnig cyngor i Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd i ddatblygu Canllaw Diogelwch Bwyd yn gysylltiedig ag ail-agor Busnesau Bwyd yn ystod y pandemig COVID-19. Anfonwyd gwybodaeth drwy'r post gan gynnwys dolenni a chopïau o daflenni 'Ail-agor ac addasu eich busnes bwyd yn ystod COVID-19' gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i 580 o fusnesau bwyd.

Mae gwaith hyrwyddo sylweddol wedi'i gyflawni ynghylch hyrwyddo Cyfraith Natasha lle'r oedd angen gwethredu newidiadau ynghylch labelu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w Werthu'n Uniongyrchol (PPDS). Ynghlwm â'r gwaith bu inni gyflwyno hysbysiadau cyfryngau cymdeithasol rheolaidd hyd at Hydref 2021, taflenni gwybodaeth drwy'r post i 529 o fusnesau gan gynnwys dosbarthu taflenni Canllaw a gwybodaeth ymgynghorol yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynghlwm â'r holl Hysbysiadau Anffurfiol oedd wedi'u hanfon gan yr Adran.

## 3.9 Rheoli ac Archwilio Achosion a Chlefydau Trosglwyddadwy sy'n Gysylltiedig â Bwyd

Mae Cynllun Achosion Clefydau Trosglwyddadwy i Gymru'n ymdrin â'r dull i reoli holl achosion o glefydau trosglwyddadwy gyda goblygiadau iechyd cyhoeddus ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n goruchwylio'r Cynllun ac yn rhagnodi'r dulliau adnabod a rheoli achosion.

Mae Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC) wedi'u penodi gan yr Awdurdod Lleol fel y swyddog priodol er dibenion y Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd hefyd wedi'u penodi fel swyddogion pŵer mynediad.

Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus yn meddu ar bolisi i ymchwilio i bob achos o salwch sydd wedi'u gludo gan fwyd a dŵr a gadarnhawyd ac a amheuir gan gynnwys gwenwyn bwyd.
Gallai adroddiadau o salwch ddeillio o nifer o ffynonellau: -

- Labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)
- Ymarferwyr Meddygol
- Cleifion
- Cyflogwyr
- Awdurdodau Lleol eraill

Caiff yr holl achosion eu hymchwilio lle'n bosibl gan gysylltu'n uniongyrchol â'r achos dros y ffôn a/neu gynnal ymweliad fel sy'n briodol. Diben hyn yw cyflawni'r canlynol: -

- Pennu'r achos;
- Atal lledaeniad haint;
- Cynnig cyngor am reoli heintiau i gartrefi;
- Olrhain cludwyr ac achosion;
- Canfod achosion / clystyrau o glefydau;
- Cynorthwyo systemau gwyliadwriaeth;
- Pennu oes troseddau wedi'u cyflawni.

Mae natur rheoli clefydau trosglwyddadwy yn golygu fod y Tîm Iechyd Cyhoeddus yn cydweithio gyda nifer o bartneriaid er mwyn cyflawni swyddogaeth clefydau trosglwyddadwy:-

- Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cynnig gwasanaethau arbenigol i'r Awdurdod Lleol.

- Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn Microbioleg – caiff yr holl samplau ysgarthion, bwyd a samplau amgylcheddol wedi'u caffael fel rhan o archwiliad gwenwyn bwyd eu cyflwyno i'r Adran Ficrobiolegol yn Ysbyty Llandochau Fach, Caerdydd.


- Epidemiolegydd Rhanbarthol – Mae'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) yn rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae cyfrifoldeb penodol arnyn nhw i gydlynu'r ymateb cenedlaethol i glefydau trosglwyddadwy.

- Mae'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy yn cynnig cyngor a gwybodaeth i Awdurdodau Lleol drwy Epidemiolegyddion rhanbarthol wrth ymdrin â chlefydau trosglwyddadwy trafferthus, mewn achosion lle mae mwy nac un Awdurdod Lleol ynghlwm, neu pan fo goblygiadau cenedlaethol / rhyngwladol.

- Caiff yr Awdurdod Lleol ei gynrychioli ar Grŵp Tasg Clefydau Trosglwyddadwy De Ddwyrain Cymru, Grŵp Cyswllt Clefydau Trosglwyddadwy De Ddwyrain Cymru a grŵp panel Arbenigol Clefydau Trosglwyddadwy Cymru Gyfan.

Yn ystod 2021/22 fe archwiliwyd 99 achos wedi'u cadarnhau o glefydau trosglwyddadwy. Mae'r siart cylch isod yn dangos canran lledaeniad y clefydau sydd wedi'u harchwilio fesul organeb. Mae nifer yr achosion o glefydau trosglwyddadwy sydd wedi'u cofnodi (ac eithrio COVID) yn ystod 2020/21 a 2021/22 yn is na'r blynyddoedd blaenorol, a hynny mae'n debyg yn sgil y pandemig COVID, y cyfnodau clo a'r cyhoedd yn llai tueddol o ymweld â Meddyg Teulu.

**Siart yn Dangos Hysbysiadau am y gwahanol fathau o Glefydau Trosglwyddadwy a Dderbyniwyd yn ystod 2021/22 (Ac eithrio COVID-19)**




At hyn, bu i'r tîm archwilio 6 achos tebyg i norofeirws mewn ysgolion, cartrefi gofal a busnesau bwyd.

**COVID -19**

Bu i'r pandemig COVID-19 effeithio'n sylweddol ar adnoddau'r gwasanaeth oherwydd yn ystod 2020/21 a 2021/22 fe gafodd y tîm naill ai ei ddargyfeirio'n llawn neu'n rhannol i ymateb i COVID. Fe ysgogwyd hyn gan gyfraddau achosion poblogaeth ac amrywiadau newydd.

Er mwyn rhoi lefel ymrwymiad y gwasanaeth mewn cyd-destun, rhwng 1/4/21 a 31/3/22 fe gynhaliwyd 2325 o ryngweithiadau ymgynghorol ynghylch COVID gyda safleoedd ar ffurf e-byst / galwadau ffôn. Bu i'r gwasanaeth ymdrin â 6 digwyddiad / achos dros gyfnod o sawl mis.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod ynghlwm â'r gwaith ymdrin ag achosion / digwyddiadau o heintiau COVID-19 nosocomial mewn sefydliadau gofal caeedig. Mae'n anodd ar hyn o bryd rhagweld yr union lwyth gwaith o Orffennaf y 1af 2022 pan fyddai'r Tîm Profi Olrhain Diogelu Rhanbarthol yn gweithredu ar sail model llai, gan nad yw'r gweithdrefnau uwchgyfeirio a'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol wedi'u cwblhau eto. Mae'r gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd mynd i'r afael â'r gwaith ychwanegol hyn heb iddo effeithio'n sylweddol ar gyflawniad y gwasanaeth bwyd.

Mae'n anodd rhagweld nifer yr hysbysiadau o glefydau trosglwyddadwy a ddaw i law yn ystod unrhyw flwyddyn benodol ac felly'r adnoddau fydd eu hangen i gyflawni archwiliadau priodol. Fodd bynnag mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymo i gynnig adnoddau digonol er mwyn archwilio a rheoli achosion o glefydau trosglwyddadwy drwy aberthu gwaith arferol ac os yn briodol drwy roi trefniadau cilyddol ar waith gydag Awdurdodau Lleol cyfagos pan fo'n briodol.

**Yr Adnoddau Amcangyfrifedig sydd ei Angen i gyflawni'r swyddogaeth hwn yw 1.0 Cyfwerth ag Amser Llawn**

# 4. Adnoddau

## 4.1 Dyraniad Ariannol 2022/23

| | Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd ac Atal Clefydau Trosglwyddadwy : Archwilio, Monitro a Gorfodi (4077) |
|---|---|
| **TEMPLED** | **Cyllideb 2022/23 £** |
| **Gwariant** | |
| - | |
| Costau Gweithwyr | |
| Cyflogau | 241,301 |
| Hyfforddiant Staff | 380 |
| Gwariant sy'n Gysylltiedig â Chludiant | |
| Lwfansau Car | 2,270 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | |
| Cyfarpar | 1,030 |
| Argraffu, Deunydd Ysgrifennu a Hysbysebu | 130 |
| Ffioedd Proffesiynol | 590 |
| Postio a Ffonau | 800 |
| Ffioedd Dadansoddi | 2,250 |
| Gwaith Diofyn | |
| **Gwariant Gros** | 248,751 |
| **Incwm** | |
| Ffioedd a Threuliau | 3,000 |
| Costau Llys | 2,200 |
| **Incwm Gros** | 5,200 |
| | |
| **Gwariant Net** | 243,551 |

**Mae'r graff isod yn dangos y twf cyllidebol ar gyfer y cyfnod 2019 - 2023**

| | Cyllideb 2019/20 £ | Cyllideb 2020/21 £ | Cyllideb 2021/22 £ | Cyllideb 2022/23 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| - | | | | |
| Costau Gweithwyr | | | | |
| Cyflogau | 179,420 | 175,080 | 183,965 | 241,301 |
| Hyfforddiant Staff | 370 | 380 | 380 | 380 |
| Gwariant sy'n Gysylltiedig â Chludiant | | | | |
| Lwfansau Car | 2,270 | 2,270 | 2,270 | 2,270 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | |
| Cyfarpar, Offer a Deunydd | 1,010 | 1,030 | 1,030 | 1,030 |
| Argraffu, Deunydd Ysgrifennu a Hysbysebu | 130 | 130 | 130 | 130 |
| Yswiriant | | | | |
| Postio a Ffonau | 180 | 800 | 800 | 800 |
| Ffioedd Hysbysu – Cyffredinol | 0 | | | |
| Ffioedd Proffesiynol | 580 | 590 | 590 | 590 |
| Ffioedd Dadansoddi | 2,250 | 2,250 | 2,250 | 2,250 |
| Gweddill Gwyliau i'w Hildio | | | | |
| Effeithlonrwydd Lleihau Cyllideb | | | | |
| **Gwariant Gros** | 186,210 | 182,530 | 191,415 | 248,751 |
| **Incwm** | | | | |
| Incwm Ail-sgorio | 3,000 | 3,000 | 3,000 | 3,000 |
| Costau Llys | 2,200 | 2,200 | 2,200 | 2,200 |
| **Incwm Gros** | 5,200 | 5,200 | 5,200 | 5,200 |
| | | | | |
| **Gwariant Net** | 181,010 | 177,330 | 186,215 | 243,551 |

Does dim cyllideb penodol wedi'i neilltuo ar gyfer ffioedd cyfreithiol a samplo bwyd, ond os byddai angen cyllideb o'r fath byddwn yn manteisio ar gefnogaeth ariannol o'r gyllideb Diogelu'r

Cyhoedd. Caiff gweithgarwch Samplo Bwyd ei ariannu'n aml drwy gyllid allanol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

Sicrhawyd cronfa glustnodi wrth gefn o £27,000 ym mis Hydref 2021 ac mae'r cyllid ar gael yn benodol i gefnogi gwaith cyflawni'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd 22/23 hwn.

## 4.2 Dyrannu Staff

Mae'r swyddogion canlynol yn rhan o'r Tîm Iechyd Cyhoeddus:

| **Rôl** | **Swyddogaeth** | **Cofrestru â Bwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB)** | **Profiad yn y maes Diogelwch Bwyd** | **Profiad yn y maes Safonau Bwyd** |
|---|---|---|---|---|
| Rheolwr Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (swyddog arweiniol dros ddiogelwch bwyd) | Mae Iechyd yr Amgylchedd yn ymdrin â'r canlynol: Diogelwch a safonau bwyd, Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd a Diogelwch, gweithdrefnau arbennig, cyflenwadau dŵr preifat, deddfwriaeth ddi-fwg, trwyddedu petrolewm. | 1996 | 27 mlynedd | 8 mlynedd |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (swyddog arweiniol dros glefydau trosglwyddadwy) Swydd Rhan Amser – 32 awr | Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd, Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd a Diogelwch, gweithdrefnau arbennig | 2002 | 21 mlynedd | 8 mlynedd |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (swyddog arweiniol dros safonau bwyd a thwyll bwyd) | Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd, Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd a Diogelwch, | 1996 | 17 mlynedd | 8 mlynedd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gweithdrefnau arbennig | | | |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (swyddog arweiniol dros iechyd a diogelwch / gweithdrefnau arbennig) | Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd, Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd a Diogelwch, trwyddedu petrolewm, gweithdrefnau arbennig. | 2015 | 7 mlynedd | 7 mlynedd |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (swyddog arweiniol dros Gyflenwadau Dŵr Preifat) | Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd, Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd a Diogelwch, Cyflenwadau dŵr preifat, gweithdrefnau arbennig | 2018 | 2 flynedd a ½ | 2 flynedd a ½ |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Swydd Rhan Amser 28 awr | Diogelwch Bwyd, Safonau Bwyd, Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd a Diogelwch, gweithdrefnau arbennig | 2014 | 7 mlynedd a ½ | 2 flynedd |

Mae'n anodd amcangyfrif faint o swyddogion cyfwerth ag amser llawn (FTE) sydd wedi'u cyflogi o gymharu â'r nifer sy'n angenrheidiol i gyflawni swyddogaeth benodol gan fod y tîm yn amlddisgyblaethol a chaiff adnoddau eu trosglwyddo'n barhaus rhwng swyddogaethau er mwyn bodloni'r galw am wasanaeth rheng flaen.

Bu i'r sefyllfa hon waethygu mwyfwy yn sgil y gwaith i fynd i'r afael â COVID-19 oherwydd yn ystod cyfnodau lle'r oedd tonnau'r pandemig ar eu hanterth, yn enwedig yn ystod misoedd yr Hydref/Gaeaf, cafodd y tîm cyfan eu harallgyfeirio o'r gwasanaeth bwyd. Ni wyddom sut gallai COVID-19 effeithio ar y gwasanaeth bwyd yn ystod 2022/23 gan fod cynllun Olrhain, Profi a Diogelu Bwrdd Iechyd Cwm Taf wedi'i gwtogi ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Fodd bynnag mae cyflawni'r cynllun hwn yn flaenoriaeth ynghlwm â'r gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd ehangach.

Mae adnoddau amcangyfrifedig i gyflawni'r gwasanaeth sydd wedi'i amlinellu'n Pennod 3 y cynllun yn gofyn am y nifer canlynol o staff gweithredol.

| Gweithgaredd y Gwasanaeth | Adnoddau Amcangyfrifedig Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|
| Ymyriadau Diogelwch a Safonau Bwyd<br>Cwynion Diogelwch a Safonau Bwyd<br>Cyngor Busnes Diogelwch a Safonau Bwyd<br>Samplo Diogelwch a Safonau Bwyd<br>Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (ac eithrio COVID)<br>Digwyddiadau Diogelwch/Safonau Bwyd<br>Cyfathrebu a Hyrwyddo | **3.1**<br>**0.3**<br>**0.4**<br>**0.2**<br>**1.0**<br><br>**0.1**<br>**0.1** |
| **Cyfanswm** | **5.2** |
| **Cyfanswm Adnoddau Staff Cyfredol y Tîm Iechyd Cyhoeddus** | |
| Ymyriadau Diogelwch a Safonau Bwyd<br>Cwynion Diogelwch a Safonau Bwyd<br>Cyngor Busnes Diogelwch a Safonau Bwyd<br>Samplo Diogelwch a Safonau Bwyd<br>Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (ac eithrio COVID)<br>Digwyddiadau Diogelwch/Safonau Bwyd<br>Cyfathrebu a Hyrwyddo | **3.0**<br>**0.3**<br>**0.4**<br>**0.2**<br>**0.7**<br><br>**0.1**<br>**0.1** |
| **Cyfanswm** | **4.8** |

| Gwasanaeth Bwyd | Cyfanswm gwirioneddol o Oriau Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer 22/23 | Oriau Cyfwerth ag Amser Llawn amcangyfrifedig ar gyfer 2022/23 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | **4.8** | **5.2** | **0.4** |

Bu cynnydd yn y capasiti ers y cynllun gwasanaeth diwethaf yn 2018/19 drwy greu 1 swydd Gyfwerth ag Amser Llawn. Fodd bynnag mae'r cynnydd wedi'i wrthbwyso'n rhannol yn sgil ymddeoliad Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd (EHM) (Mawrth 2022) a wnaeth fodloni'r fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). Mae'r Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd newydd yn Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd Siartredig cymwys allai gynnig sgiliau rheoli ac arwain i'r Gwasanaeth Bwyd. Er hynny, nid yw'n meddu ar brofiad hylendid / safonau bwyd diweddar a fyddai'n bodloni'r gofynion cymhwysedd.

Yn ystod y flwyddyn wasanaeth hon, bydd swyddog llawn amser yn gadael yr Adran a bydd y swydd yn wag am gyfnod o ddeufis. Mae'r gronfa gyfredol o swyddogion sy'n chwilio am waith ac sy'n bodloni fframwaith Cymhwysedd y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) yn gyfyngedig. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd cymwys. Bydd angen bwrw iddi i ddatblygu sgiliau'r Ymarferydd dan sylw ymhellach i fodloni'r fframwaith Cymhwysedd er mwyn cyflawni'r ystod lawn o swyddogaethau sydd yn y cynllun gwasanaeth hwn.

Does dim cefnogaeth busnes penodol ynghlwm â'r gwasanaeth, ond mae modd manteisio ar wasanaeth swyddog cefnogaeth busnes ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd.

**Defnyddio Contractwyr**

Lle caiff diffyg o ran capasiti ei adnabod, mae'r Cyngor wedi a bydd yn parhau i benodi contractwyr cymwys ac addas i gynorthwyo gyda chyflawni ymyriadau mewn sefydliadau bwyd.

Bydd angen i gontractwyr fodloni'r gofynion cymhwysedd sydd wedi'u hamlinellu yn fframwaith Cymhwysedd y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) ynghyd â sicrhau eu bod wedi'u dilysu a'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'n heriol ceisio canfod contractwyr addas ar hyn o bryd oherwydd y lefelau uchel o alw gan yr holl Awdurdodau Lleol sy'n ceisio mynd i'r afael â'r ôl-groniad o archwiliadau yn sgil y pandemig COVID-19 ynghyd â'r cyfraddau afresymol gaiff eu codi.

## 4.3 Cynllun Datblygu Staff

Mar Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ystyried datblygu a hyfforddi staff yn hollbwysig er mwyn diwallu anghenion ei gwsmeriaid.

Mae'r holl staff sydd ynghlwm â'r gwaith Diogelwch Bwyd yn Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd cymwys. Er mwyn pennu lefel cymhwysedd swyddog, byddwn yn dwyn i ystyriaeth y gofynion fframwaith cymhwysedd sydd wedi'u crybwyll yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru), a'r gweithdrefnau Awdurdodi Gwasanaeth a Hyfforddiant.

Ar lefel gwasanaeth, mae'r Awdurdod Lleol yn ymdrechu i gynnig cefnogaeth i'r holl weithwyr, er mwyn diwallu eu hanghenion hyfforddiant sydd wedi'u hadnabod. Ar hyn o bryd, mae un swyddog lle nad yw'n meddu ar yr ystod lawn o gymwyseddau hylendid sydd ynghlwm â'r fframwaith. O ganlyniad, mae cynllun hyfforddiant ar waith i ddatblygu anghenion y swyddog hwn yn unol â fframwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Bydd y gwasanaeth yn colli swyddog cwbl cymwys ym mis Gorffennaf 2022 a ni fydd swyddog newydd yn cychwyn gweithio tan Fedi 2022 gan fod y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn gofyn i staff weithio cyfnod rhybudd o dri mis. Caiff cynllun hyfforddiant ei ddatblygu ar gyfer y Swyddog hwn er mwyn sicrhau caiff gofynion y fframwaith cymhwysedd eu bodloni. Rydym yn rhagweld y gallai gymryd oddeutu dwy flynedd i ddatblygu cymhwysedd llawn.

Mae'r Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn cyflawni adolygiad blynyddol o'r anghenion hyfforddiant unigol yn ogystal â'r Gwerthusiadau Canolbwyntio ar Berfformiad Blynyddol, sy'n ofynnol yn gorfforedig, a sesiynau un-i-un rheolaidd. Mae Swyddogion ond wedi'u hawdurdodi i weithredu ar ran yr Awdurdod Lleol yn unol â'u lefel sefydledig o hyfforddiant a chymhwysedd. Byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddiant yn ystod y flwyddyn drwy gynnal cyrsiau mewnol ac allanol.

Caiff datblygu proffesiynol parhaus ei annog, ei fonitro a'i gofnodi er mwyn sicrhau fod pob swyddog yn ennill y lleiafswm pwyntiau sy'n angenrheidiol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd statudol ac er mwyn ymaelodi â'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd. Mae'n rhaid i Swyddogion sy'n ymgymryd â rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill gyflawni lleiafswm o 20 awr o Ddatblygu Proffesiynol Parhaus pob blwyddyn a 30 awr i gynnal eu

Haelodaeth Siartredig. Mae’r Cod yn gofyn i swyddogion dreulio o leiaf 10 awr o Ddatblygu Proffesiynol Parhaus ar bynciau a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II o Reoliad a Ddargedwir (UE) 2017/625.

Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd er mwyn i swyddogion allu trafod materion archwilio a gorfodi, hyrwyddo cysondeb o ran gorfodi a dysgu am y materion gorfodi diogelwch bwyd diweddaraf. Mae’r holl swyddogion hefyd yn cymryd rhan mewn ymarferion Cysondeb Cenedlaethol sydd wedi’u trefnu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Bu i Safonau Masnach drosglwyddo’r swyddogaeth Safonau Bwyd i’r gwasanaeth sawl blwyddyn yn ôl. Mae anghenion hyfforddi ychwanegol wedi’u hadnabod i ddatblygu sgiliau swyddogion ymhellach yn y maes gwaith hwn.

## 5. Asesu Ansawdd

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw system rheoli ansawdd, sydd wedi'i gydnabod yn ffurfiol, ar waith. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cydnabod yr angen i fesur effeithlonrwydd ac yn gefnogol dros ben o'r ethos gwella parhaus.

Mae'r gwasanaeth felly'n cymryd rhan mewn ac yn ymgymryd â nifer o weithgareddau er mwyn sicrhau fod y gwaith o safon uchel. Mae'r gwasanaeth hefyd yn mynd ati i ganfod a gweithredu gwelliannau.

### 5.1 Gweithdrefnau wedi'u Dogfennu

I sicrhau bod ein gweithgareddau'n gyson ac o safon, mae'r Adran Diogelu'r Cyhoedd a Thai yn adolygu eu holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelwch/safonau bwyd pob blwyddyn. Caiff y rhain eu cadw yn y Llawlyfr Ansawdd sydd ar ffurf darllen yn unig ac sydd ar gael i'r holl staff fwrw golwg arno ar gyfrifiadur.

### 5.2 Asesu ac archwiliadau

Byddwn yn asesu gwaith monitro ansawdd ein polisïau a'n gweithdrefnau mewn sawl ffordd, sef drwy: -

- Archwiliad mewnol o weithdrefnau sydd wedi'u dogfennu
- Archwiliadau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
- Ymgynghori gydag ac adborth gan gwsmeriaid;
- Adolygu cwynion a chanmoliaethau corfforedig am y gwasanaeth.

At hyn, caiff y camau gweithredu hyn eu cyflawni:

- Bydd y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'r Swyddog Arweiniol Diogelwch bwyd neu uwch swyddog arall a enwebwyd yn adolygu detholiad o ohebiaeth.
- Bydd y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'r Swyddog Arweiniol Diogelwch bwyd neu uwch swyddog arall a enwebwyd yn cynnal lleiafswm o 1 archwiliad cyfoedion y flwyddyn gyda phob swyddog.
- Bydd y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'r Swyddog Arweiniol Diogelwch bwyd neu uwch swyddog arall a enwebwyd yn archwilio detholiad o archwiliadau, cwynion ac ymchwiliadau ar sail risg.
- Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd gan gofnodi'r camau gweithredu.
- Caiff ymarferion cysondeb eu cynnal yn fewnol ynghyd ag ymarferion Hyfforddiant Cysondeb Cenedlaethol.

### 5.3 Ymgynghori gydag ac adborth gan Gwsmeriaid

Rydym yn ymroi i sicrhau fod y cwsmeriaid ynghlwm â'r broses barhaus o wella gwasanaethau ac yn cydnabod yr angen i feddu ar ddulliau strwythuredig o gaffael barn defnyddwyr gwasanaeth a'u safbwynt am y gwasanaeth. Ymysg y dulliau ar waith mae'r canlynol:-

- Caiff holiadur boddhad cwsmer ei anfon at holl weithredwyr busnesau bwyd yn dilyn archwiliad. Gellir dychwelyd yr holiadur gyda'r amlen barod neu ei gwblhau ar-lein. Caiff yr holiaduron eu dadansoddi'n rheolaidd a chaiff y canlyniadau eu rhannu â'r staff gyda'r nod o ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth;

- Cwynion a chanmoliaethau corfforedig.

# 6. Adolygu

## 6.1 Adolygu o gymharu â'r cynllun gwasanaeth

O ganlyniad effaith y pandemig COVID-19, ni chafodd unrhyw gynlluniau gwasanaeth ffurfiol eu llunio ar gyfer 2020/21 a 2021/22. Bu i'r gwasanaeth lunio cynllun adfer yn unol â gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno'r cyfarwyddyd a'r cyngor i awdurdodau lleol ar gyfer y cyfnod o Orffennaf y 1af 2021 hyd at 2023/24. Mae'r Cwestiynau ac Atebion Awdurdodau Lleol ynghylch Adfer yn dilyn COVID-19 yn ategu'r Cynllun Adfer.

Caiff perfformiad o gymharu â gofynion y Cynllun Adfer ei fonitro gan y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd / Swyddog Arweiniol Diogelwch Bwyd. Caiff ffurflenni gwirio tymheredd eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar adegau penodol sy'n cyd-fynd â'r cerrig milltir a'r targedau sydd wedi'u nodi yn y cynllun. Caiff y ffurflenni gwirio tymheredd hyn eu cyflwyno i'r Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd a'r Pennaeth Gwasanaeth fel rhan o'r gwaith monitro perfformiad.

Yn 2021/22 cwblhawyd archwiliadau ar **4** safle â sgôr o A, **27** â sgôr o B, **82** â sgôr o C a **5** â sgôr o D. Cafodd **50** busnes newydd eu harchwilio hefyd. Fe gynhaliwyd **27** sesiwn rhyngweithio o bell gydag archwiliad ar y safle i ddilyn. Cafodd **1** storfa oer annibynnol gyda gweithgarwch ail-bacio ei gymeradwyo'n unol â'r gofynion statudol.

Mae perfformiad y gwasanaeth yn rhagori ar y targed ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn ac mae'r cerrig milltir hyd at ac yn cynnwys Rhagfyr yr 31ain 2022 wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, mae'r nifer uchaf o archwiliadau ynghlwm â chategori'r garreg filltir olaf sef y sefydliadau hynny sydd â sgôr Categori C o ran hylendid bwyd ac sy'n cydymffurfio'n fras. Ar hyn o bryd mae **215** yn y Categori hwn lle mae eu harchwiliadau'n hwyr ac mae angen eu harchwilio hyd at ddiwedd Mawrth 2023.

Wrth i'r rhaglen archwilio fynd rhagddi, caiff safleoedd newydd sydd â sgôr Categori A a B eu cynhyrchu oherwydd y dirywiad mewn safonau hylendid bwyd sy'n cael ei nodi. Bydd angen archwilio nifer o'r rhain yn ystod 2022/23. Mae nifer y ceisiadau am ail-sgorio caiff eu derbyn hefyd yn ychwanegu at y llwyth gwaith gan fod angen eu cwblhau ymhen cyfnod amser statudol o 3 mis.

Er mwyn sicrhau gwella parhaus, mae'n rhaid monitro perfformiad yn rheolaidd. Dyma'r camau gweithredu ynghlwm â'r gwaith:

- Mae'r Cyngor wedi datblygu ei Fframwaith Gwella Gwasanaeth (SIF), sef dull mwy syml, ac sy'n canolbwyntio mwy ar ddeilliannau, o reoli perfformiad a hunanasesu. Mae'n amlinellu'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau atebolrwydd. Mae'r fframwaith yn ystyried hunanwerthuso yn hollbwysig ac mae dulliau wedi'u pennu i hwyluso hyn, megis cyfarfodydd trywydd ymholi a sesiynau herio.

- Mae'r Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Gwasanaeth hwn sy'n nodi'r rhaglen waith ar gyfer y gwasanaeth yn ogystal ag adolygu perfformiad o gymharu â'r rhaglen drwy'r broses hunanwerthuso;

- Mae gofyn i bob adran lunio Strategaeth ar Dudalen (SOAP) sy'n trafod eu gweledigaeth gyffredinol, meysydd blaenoriaeth a'u deilliannau mesuradwy a dymunol. Bydd y Strategaeth ar Dudalen (SOAP) hefyd yn ymdrin â diogelwch bwyd. Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd gan gyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor craffu perthnasol;

- Caiff cyfarfodydd un-i-un misol eu cynnal rhwng Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a'r Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd ynghylch perfformiad y gwasanaeth o ddydd i ddydd;

- Caiff perfformiad cyffredinol y gwasanaeth a pherfformiad unigol ei fonitro'n fisol pan gaiff archwiliadau eu neilltuo;

- Caiff perfformiad ei adolygu mewn cyfarfodydd tîm;

- Caiff perfformiad unigolion ei reoli drwy gyfarfodydd staff a chyfarfodydd un-i-un.

- Dychwelyd ffurflenni gwirio tymheredd rheolaidd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Caiff unrhyw ddiffygion sylweddol yn y gwasanaeth eu hadrodd i'r Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, y Pennaeth Gwasanaeth a'r pwyllgor craffu perthnasol, ynghyd â'r argymhellion ar gyfer camau unioni priodol. At hyn, caiff unrhyw fethiannau arfaethedig i fodloni'r cerrig milltir sydd wedi'u pennu yng Nghynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd eu hadrodd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

## 6.2 Adnabod Amrywiadau

Mae'r dulliau sydd ar waith i adolygu perfformiad yn fodd o weithredu camau unioni pe bai unrhyw ddiffygion o gymharu â thargedau neu gynlluniau'n ystod y flwyddyn. Byddwn yn dwyn i ystyriaeth yr amryw ffactorau a allai gyfrannu at y diffygion ac oes angen adnoddau ychwanegol, ail-ddyrannu staff neu ail-flaenoriaethu llwyth gwaith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Caiff unrhyw broblemau sydd heb eu datrys erbyn diwedd y flwyddyn eu cynnwys yn y Cynllun gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

### 6.2.1 Mesur Perfformiad


**Hylendid Bwyd**

Yr unig ddangosydd perfformiad cyfredol sydd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n berthnasol i Ddiogelwch Bwyd yw Mesur Atebolrwydd Perfformiad PAM 023 sy'n mesur y canran o safleoedd sy'n "cydymffurfio'n fras" gyda safonau hylendid bwyd. Ar hyn o bryd, mae 94.60% o fusnesau ar gyfartaledd ym Merthyr Tudful wedi'u pennu'n rhai sy'n cydymffurfio'n fras. Mae hyn yn gynnydd bychan o gymharu â'r llynedd pan roedd 94.45% yn cydymffurfio'n fras. Bu i'r lefel cydymffurfio ostwng i'r rhif isaf erioed yn ystod y pedair blynedd diwethaf ac mae'n parhau i fod yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru o 95%. Mae hyn oherwydd bod gan Gymru'r nifer isaf o fusnesau bwyd ac mae nifer fach o fusnesau sydd ddim yn cydymffurfio'n fras yn effeithio'n anghymesur ar y canran cyffredinol.

Mae manylion llawn y perfformiad o gymharu â'r Dangosyddion Perfformiad Strategol a Chraidd Cenedlaethol ar gael ar wefan Uned Data Cymru ar: http://www.dataunitwales.gov.uk/data

Mae cyfyngiadau sylweddol o ran y dylanwad allai'r Cyngor ei gael ar berfformiad o gymharu â'r dangosydd hwn gan ei fod yn fesur o lefel cydymffurfio yr asesir bod busnes bwyd wedi'i gyflawni ar adeg cyflawni'r ymyriad statudol. Y gweithredwr busnes bwyd sy'n gyfrifol dros eu lefel cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth berthnasol yn hytrach na'r Cyngor. Gallai'r Cyngor, fel rheoleiddiwr, geisio dylanwadu ar y lefel cydymffurfio cyffredinol gan weithredu ystod o gamau gorfodi gan gynnwys, er enghraifft, cynnig cyngor, cyflwyno rhybuddion ysgrifenedig, gweithredu hysbysiadau cyfreithiol, erlyn ac ati. Felly, gan ddibynnu ar y lefel o ddiffyg cydymffurfio gaiff ei adnabod yn ystod y flwyddyn, bydd y Cyngor yn mynd ati i addasu eu dull fel sy'n briodol.

**Graff yn Dangos y Nifer o Safleoedd sy'n Cydymffurfio'n Fras**




## ARCHWILIADAU

Yn ystod 2021/2022 fe gwblhawyd **166** o archwiliadau / ymyriadau hylendid bwyd yn ogystal ag **84** o archwiliadau safonau bwyd. Mae'r diffyg oherwydd yr ôl-groniad yn sgil y pandemig COVID-19.

### Rheol 28 Diwrnod


Yn y cynlluniau gwasanaeth blaenorol, amlygwyd fod y gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd archwilio busnesau cyfredol ymhen 28 o'u dyddiad disgwyliedig a busnesau newydd ymhen 28 diwrnod ers iddyn nhw gychwyn masnachu (yn amodol ar risg) sy'n ofyniad yn y Cod Ymarfer

Cyfraith Bwyd. Nid yw eleni yn eithriad, oherwydd yn sgil y pandemig COVID, derbynnir bod ôl-groniad o archwiliadau o 2020-22 a bod archwiliadau'r rhan helaeth o fusnesau'n hwyr.

### Crynodeb o'r Gweithgareddau a'r Camau Gorfodi

Mae'r gwasanaeth yn casglu cyfanswm sylweddol o ddata bob blwyddyn a gaiff ei ddefnyddio i ddadansoddi perfformiad a gwella darpariaeth a deilliannau'r gwasanaeth. Mae'r siart canlynol yn crynhoi'r camau gorfodi yn ystod 2021/22:


**Nifer y Gwahanol Gamau Gorfodi Bwyd yn ystod 2021/22 – Hylendid Bwyd**




### Erlyn

Cafodd Siop Cludfwyd Tsieineaidd Aberfan ei erlyn ym mis Ionawr 2022 am dorri Rheoliadau hylendid bwyd. Bu inni ymweld â'r safle a'i harchwilio yn ystod Awst 2021 yn dilyn derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd. Datgelodd yr ymchwiliad dystiolaeth o bla o lygod ynghyd â nifer o doriadau hylendid bwyd. Bu i'r swyddog gyflwyno Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid i weithredwr y busnes bwyd gan achosi i'r busnes gau. Bu i Lys Ynadon Merthyr Tudful gyflwyno Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid gan wahardd y safle rhag cael ei defnyddio fel busnes bwyd. Roedd yr Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid yn aros mewn grym hyd nes i'r gweithredwr gael gwared ar y pla a hyd nes i'r Cyngor ddiddymu'r gorchymyn. Derbyniodd y Gweithredwr Busnes Bwyd ddirwy o gyfanswm o £1600, £697.50 o gostau a gordal dioddefwr o £100.

**Nifer y Gwahanol Gamau Gorfodi Bwyd yn ystod 2021/22 – Safonau Bwyd**




## Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

| Nifer y Sefydliadau Bwyd gyda sgôr o 0-5 2014 -2022 | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2021/2022 | **1.05%** | **14.14%** | **4.71%** | **18.85%** | **24.08%** | **37.17%** |
| 2020/2021 | **0%** | **18.84%** | **1.45%** | **15.94%** | **21.74%** | **42.03%** |
| 2019/2020 | **0.30%** | **8.11%** | **5.11%** | **14.71%** | **24.92%** | **46.85%** |
| 2018/2019 | **1.08%** | **7.58%** | **2.89%** | **18.05%** | **23.10%** | **47.29%** |
| 2017/2018 | **2.3%** | **5.7%** | **3.3%** | **21.4%** | **31.8%** | **35.5%** |
| 2016/2017 | **0.2%** | **5.0%** | **4.4%** | **16.4%** | **27.2%** | **46.6%** |
| 2015/2016 | **0.4%** | **7.1%** | **3.5%** | **20.2%** | **34.0%** | **34.8%** |
| 2014/2015 | **0.6%** | **4.7%** | **7.7%** | **21.7%** | **30.0%** | **35.3%** |

**Gweithgarwch Prosiect**

Yn 2021/2022 bu i'r gwasanaeth ennill £4152.25 + TAW o gyllid allanol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gymryd rhan yn Rhaglen Cynllun Samplo Safonau Masnach Bro Morgannwg. Fel rhan o'r cynllun, fe gymerwyd **28** sampl, roedd **23** yn samplau cysylltiedig ag alergeddau a **5** yn gysylltiedig â labelu a chyfansoddiad. Mae Tabl yn dangos Crynodeb o Weithgarwch Samplo Safonau Bwyd 2021/22 ynghlwm ag **Atodiad 5.**

Cafodd y prosiect ei rannu'n 4 chwarter samplo:

Q1 Cafodd prydau cludfwyd wedi'u paratoi mewn bwytai Indiaidd eu samplo am bresenoldeb llaeth yn dilyn datgan alergedd i laeth

Q2 Cafodd cebabau doner eu samplo am bresenoldeb llaeth yn dilyn datgan alergedd i laeth

Q3 Cafodd cynnyrch fegan eu samplo er mwyn sicrhau fod cynnyrch sy'n addas i feganiaid wedi'u disgrifio'n ddigonol

Q4 Samplo cynnyrch wedi'i labelu a'i becynnu ymlaen llaw i'w Werthu'n Uniongyrchol (PPDS) i wirio'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd (Cymru) (fel y'i diwygiwyd) Rhif.2 2020

Yn sgil y prosiectau samplo, cafodd **dau** ddigwyddiad eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Awdurdodau Gwreiddiol, cyflwynwyd **1** FIRIN ac fe ddarparwyd cyngor alergeddau pellach i fusnesau bwyd.

Mae crynodeb o ganlyniadau samplo safonau bwyd ar gyfer 2021/22 ynghlwm ag **Atodiad 6**

### 6.2.2 Samplau Hylendid Bwyd

Yn sgil effaith y pandemig COVID-19 ar y gwasanaeth, ni chymerwyd unrhyw samplau microbiolegol yn ystod 2021/22. Bydd y gwasanaeth yn ail-gydio yn y rhaglen samplo microbiolegol yn 2022/23 yn unol â gofynion Cynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ogystal â chymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Fforwm Samplo Microbiolegol Bwyd Cymru (Atodiad 3). Fodd bynnag mae modd cyflwyno samplau sy'n gysylltiedig â chwynion, achosion honedig o wenwyn bwyd ac ati, unrhyw bryd.

## 6.3 Meysydd gwella

Fel rhan o'r broses adolygu flynyddol, caiff unrhyw feysydd i'w gwella eu hadnabod a'u cynnwys yn y Cynllun gyda gwelliannau'n ymwneud â meysydd megis :-

- Cynyddu'r dyraniad cyllidebol ar gyfer hyfforddi Swyddogion i ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â swyddogaeth Safonau Bwyd.

- Gwella'r cyfle i fanteisio ar gyngor, yn enwedig ar gyfer busnesau newydd er mwyn sicrhau'r cychwyn gorau posib ac i wella eu sgorau Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

- ❖ Gwella cysylltiadau gydag Adrannau Mewnol e.e. Yr Adran Adfywio sy'n cynnig Cymorth Grant i fusnesau bwyd, yr adran Arlwyo Ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- ❖ Gwelliannau o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gan gynnwys gwelliannau parhaus i'r gronfa ddata Tascomi
- ❖ Datblygu'r gronfa ddata Tascomi ymhellach gan sicrhau fod swyddogion wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r system yn ei chyfanrwydd.
- ❖ Rhoi gwybod am yr wybodaeth ddiweddaraf am fwyd er mwyn cynorthwyo gyda hyrwyddo troseddau bwyd cenedlaethol.
- ❖ Ymateb i ymgynghoriadau fel sy'n briodol.
- ❖ Hyrwyddo materion bwyd gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy effeithiol er mwyn hyrwyddo diogelwch bwyd
- ❖ Datblygu polisi a gweithdrefn dilysu er mwyn penodi swyddogion newydd
- ❖ Datblygu gweithio ystwyth ymhellach ledled y tîm gan ddefnyddio cyfarpar TGCh symudol.
- ❖ Cynyddu'r nifer o wiriadau ar arddangos sgorau hylendid bwyd a phresenoldeb y datganiad ar fwydlenni gan weithredu'r camau gorfodi priodol.
- ❖ Gweithredu unrhyw gyfarwyddyd / deddfwriaeth newydd sydd wedi'i gyflwyno gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Llywodraeth.
- ❖ Hyrwyddo cydymffurfiaeth gyda'r Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd a hysbysu busnesau o'r gofynion.
- ❖ Sicrhau cyllid tymor canolig / hirdymor ychwanegol er mwyn adfer swydd Myfyrwyr Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddog Technegol.
- ❖ Sicrhau cyllid mewnol ar gyfer samplo Safonau Bwyd
- ❖ Sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer y swyddogaeth Clefydau Trosglwyddadwy
- ❖ Meithrin partneriaeth Awdurdod Sylfaenol gyda busnes Cenedlaethol sy'n gweithredu yng Nghymru

**Arolwg Boddhad Cwsmeriaid**

Mae gan yr Adran arolwg boddhad cwsmeriaid parhaus i ganfod barn cwsmeriaid am ein gwasanaeth diogelwch bwyd. Byddwn yn anfon holiadur ac amlen barod at fusnesau bwyd sy'n derbyn ymyriad ynghlwm â phob adroddiad sydd wedi'u cyflwyno gan yr Adran. Caiff canlyniadau'r arolwg hwn eu gwerthuso'n rheolaidd ac rydym yn eu defnyddio i wella safonau'r gwasanaeth.

## 7. Atodiadau'r Cynllun Gwasanaeth.

**Atodiad 1** **Strwythur Rheoli Adrannol**

**Atodiad 2** **Strwythur Cyfundrefnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**


**Atodiad 3** **(Basged Siopa 15A Ebrill 2022)**

**Atodiad 4** **Cynllun samplo microbiolegol 2022/23**


**Atodiad 5** **Crynodeb Gweithgarwch Samplo Safonau Bwyd 2021/22**

**Atodiad 6** **Canlyniadau Samplo Safonau Bwyd 2021/22**

**Atodiad 1 –Strwythur Rheoli Adrannol**



Atodiad 2



Organisational Chart
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Ellis Cooper
Chief Executive
Alyn Owen
Deputy Chief Executive
Lisa Curtis-Jones
Director of Social Services
Sue Walker
Director of Education
New Post
Director of Governance & Resources
Image To Follow
Judith Jones
Director of Neighbourhood Services
Image To Follow
Taryn Stephens
Head of Children's Services
Angela Edevane
Head of Adult Services
Image To Follow
Andrew Mogford
Head of Policy & Improvement
Carys
Head of Legal & M.O.
Steve Jones
Head of Finance & S151
Carwyn Morris
Head of Engineering & Highways
Image To Follow
Chris Long
Head of Housing & Regeneration
Chris Hole
Head of Prevention
Anthony Lewis
Head of Planning, Performance & Resources
Andrea May
Head of Achievement & Wellbeing
Gavin Metheringham
Head of ALN & Inclusion
Ceri Dinham
Head of Comms, Consultation & Cabinet Office
Fran Donnelly
Head of Strategic HR
Mike Parry
Head of Revs, Bens & Customer Service
Richard Evans
Head of ICT & Print
Paul Lewis
Head of Public Protection

**Atodiad 3**

# FFORWM MICROBIOLEGOL BWYD CYMRU

## Codau Bwyd

Basged 15a (Diwygiwyd)

(o Ebrill 2022)

Dylid cyflwyno'r ***Cod Bwyd*** ar y Ffurflen Gais Archwiliad Bwyd ar gyfer eitemau ***Basged Siopa*** Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru'n unig.

| Cod Bwyd | Disgrifiad o'r Bwyd |
|---|---|
| **PATE** | Paté (Holl fathau e.e. Cig, Pysgod, Llysieuol) |
| **CACENNAU** | Cacennau gyda hufen ffres |
| **SALAD_R** | Saladau cymysg gyda reis. Wedi'u pecynnu ymlaen llaw a'r rhai byddwch chi'n eu dewis eich hun (gan gynnwys Sushi). |
| **SALAD** | Eitemau salad agored (heb eu pecynnu ymlaen llaw) e.e. rhai byddwch chi'n eu dewis eich hun |
| **CIG** | Cigoedd wedi'u coginio a'u sleisio – holl fathau (dofednod, cig eidion, porc, cigoedd lefeiniedig, cynnyrch mwg poeth ac oer) |
| **SLAW** | Coleslaw. Wedi'i becynnu ymlaen llaw a a'r rhai byddwch chi'n eu dewis eich hun. |
| **PYSGOD_S** | Pysgod mwg barod i'w fwyta |
| **CAWS** | Cawsiau delicatessen rhydd (heb eu pecynnu ymlaen llaw) |
| **FFRWYTH** | Ffrwythau wedi'u prosesu (e.e. saladau ffrwyth wedi'u plicio a'u ciwbio) i'w bwyta'n uniongyrchol |
| **LLBRECH** | Llenwadau Brechdanau (wedi'u pecynnu ymlaen llaw a a'r rhai byddwch chi'n eu dewis eich hun) |

**Atodiad 4 – Cynllun samplo Microbiolegol 2022/23**

Food Safety Team Sampling Plan

| | April | May | June | July | August | September | October | November | December | January | February | March |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| WFMF - Shopping Basket | | | | | | | | | | | | |
| Inspection Samples (as and when required | | | | | | | | | | | | |
| Complaint samples as and when required | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |

**Atodiad 5 Tabl yn dangos Crynodeb o Weithgarwch Samplo Safonau Bwyd 2021/22**

| | Arolygon Samplo – Safonau Bwyd | Nifer y Samplau |
|---|---|---|
| Chwarter 1 | Arolygon Grŵp Bro Morgannwg:<br>Cafodd prydau cludfwyd o fwytai Indiaidd eu samplo ar gyfer presenoldeb llaeth yn dilyn datgan alergedd i laeth. | 7 |
| Chwarter 2 | Fe gafodd cebabau doner eu samplo ar gyfer presenoldeb llaeth yn dilyn datgan alergedd i laeth. | 6 |
| Chwarter 3 | Cynnyrch fegan i sicrhau caiff cynnyrch sy'n addas i feganiaid eu disgrifio'n ddigonol | 5 |
| Chwarter 4 | Samplo cynnyrch wedi'i labelu a'i becynnu ymlaen llaw i'w Werthu'n Uniongyrchol (PPDS) i wirio'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd (Cymru) (fel y'i diwygiwyd) Rhif.2 2020 | 10<br>**Cyfanswm 28** |

.

# Canlyniadau Samplo Safonau Bwyd 2022/2023

| SAMPLING DETAILS | | | | | | | | RESULTS | | | FOLLOW-UP | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LA Sample Reference / Number** | **Date of Sampling** (date sample was procured) | **Type of Premises** | **Product Sampled** | **Description** | **Country of origin** | **Sample Tested For (e.g. specific allergen/s, speciation tests etc.)** | **Additional Sampling Information** (e.g. declarations at point of sale, allergen claims etc.) | **Results Detail** | **Satisfactory Y/N** (* please provide sample report where unsatisfactory) | **Comments / Observations** | **Specify Informal Follow-up Action Taken** (other than advising of results e.g. advice provided) | **Specify Formal Follow-up Action Taken** (e.g. prosecution file prepared) | **Incident Reported to FSA Incidents Team Y/N** | **Details of Action Taken** (please feel free to provide additional information in any accompanying email. We are particularly interested to hear details of outcomes arising from sampling undertaken) | **Action Complete Y/N** |
| 92923 | 27.05.2021 | Takeaway | Takeaway Meal | Medium Chicken curry | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| 92924 | 26.05.2021 | Takeaway/restaurant | Takeaway Meal | Chicken Biryani | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | 84mg/kg | n | Indicates gross contamination | revisit | formal resample | n | Advice given regarding management of allergens | y |
| 92925 | 26.05.2021 | Takeaway/restaurant | Takeaway Meal | Biryani and Biryani Sauce | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | 41mg/kg | n | Indicates gross contamination | N/A | formal resample | n | formal re-sample was not undertaken as the businesses subsequently would not serve customers with allergens | y |
| 92926 | 27.05.2021 | Takeaway/restaurant | Takeaway Meal | Lamb Rogan Josh | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| 92927 | 25.05.2021 | Takeaway/restaurant | Takeaway Meal | Chicken Biryani | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| MTCBC/Q1/SH1 | 23.09.2021 | Takeaway/restaurant | Takeaway Meal | Chicken Biryani | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | 1.1mg/kg | n | indicates trace contamination | N/A | Hygiene Improvement Notices served | n | formal re-sample failed - however levels were on this occasion more indicative of cross contamination as opposed to gross ingredient contamination. The business was a new business and had taken action to address the initial failure. In line with our graduated enforcement approach, the premises was revisited and two Hygiene Improvement Notices were served in respect of Allergen training and HACCP – allergen management | y |
| MTCBC/Q2/SR1 | 22.09.2021 | Takeaway/restaurant | Takeaway Meal | Doner Kebab | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | 2.1mg/kg | y | indicates trace contamination | revisit | Formal resample | n | A supervised resample was undertaken to ensure all possible sources of cross contamination were eliminated at food business. | y |
| MTCBC/Q2/SL1 | 28.09.2021 | Takeaway | Takeaway Meal | Doner Kebab | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| MTCBC/Q2/SH1 | 28.09.2021 | Takeaway | Takeaway Meal | Doner Kebab | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| | | | | | | | | | | indicates no gross | | | | | |

| SAMPLING DETAILS | | | | | | | | RESULTS | | | FOLLOW-UP | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LA Sample Reference / Number** | **Date of Sampling** (date sample was procured) | **Type of Premises** | **Product Sampled** | **Description** | **Country of origin** | **Sample Tested For (e.g. specific allergen/s, speciation tests etc.)** | **Additional Sampling Information** (e.g. declarations at point of sale, allergen claims etc.) | **Results Detail** | **Satisfactory Y/N** (* please provide sample report where unsatisfactory) | **Comments / Observations** | **Specify Informal Follow-up Action Taken** (other than advising of results e.g. advice provided) | **Specify Formal Follow-up Action Taken** (e.g. prosecution file prepared) | **Incident Reported to FSA Incidents Team Y/N** | **Details of Action Taken** (please feel free to provide additional information in any accompanying email. We are particularly interested to hear details of outcomes arising from sampling undertaken) | **Action Complete Y/N** |
| MTCBC/Q2/OE1 | 22.09.2021 | Takeaway | Takeaway Meal | Doner Kebab | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| MTCBC/Q2/JG1 | 22.09.2021 | Takeaway | Takeaway Meal | Doner Kebab | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | 39mg/kg | n | Indicates gross contamination | revisit | Advice given to FBO | y | Notification of incident to FSA and originating authority. | y |
| MTCBC/Q2/SR2 | 15.12.2021 | Takeaway/restaurant | Takeaway Meal | Doner Kebab | UK | milk | Verbal declaration at point of sale - suitable for customer with a milk allergy. | 19mg/kg | n | Indicates gross contamination | Advice given to FBO | N/A | y | Notification of incident to FSA and originating authority. | y |
| MTCBC/Q3/JG1 | 16.12.2021 | Shop | Vegan | Vegan Mexicana Block 200g | UK | egg and milk | Vegan declaration on label | egg protein: <0.13mg/kg milk protein: <2.5mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk or egg protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| MTCBC/Q3/SL1 | 15.12.2021 | Shop | Vegan | Cooplands Vegan Cheeze Pasties 280g | UK | egg and milk | Vegan declaration on label | egg protein: <0.13mg/kg milk protein: <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk or egg protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| MTCBC/Q3/SH1 | 03.12.2021 | Shop | Vegan | ALPRO Heavenly Velvet Vanilla Flavour Dessert | UK | egg and milk | Vegan declaration on label | egg protein: <0.13mg/kg milk protein: <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk or egg protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| MTCBC/Q3/OE1 | 15.12.2021 | Shop | Vegan | Fragrant Peruvian Style Rice and Quinoa | UK | egg and milk | Vegan declaration on label | egg protein: <0.13mg/kg milk protein: >4.2mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk or egg protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| MTCBC/Q3/SR1 | 15.12.2021 | Shop | Vegan | GRO Plant-based Eating 4 Sausage Rolls | UK | egg and milk | Vegan declaration on label | egg protein: <0.13mg/kg milk protein: <0.7mg/kg | y | indicates no gross contamination nor trace contamination with milk or egg protein | N/A | N/A | n | N/A | y |
| MTCBC/Q4/SR1 | 01.03.2022 | Shop | PPDS | Mini Cornbeef Pasties | UK | egg | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | egg protein: <0.13 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with egg protein. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. FBO phoned, discussed and further advice given. | y |
| MTCBC/Q4/SR2 | 01.03.2022 | | PPDS | Chicken Mayo Salad Roll | UK | milk | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | casein (dairy): <0.7 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with milk protein. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. FBO phoned, discussed and further advice given. | y |
| MTCBC/Q4/SL1 | 09.03.2022 | Shop | PPDS | Tuna Mayo Pasta | UK | sesame | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | seasame protein: <2.5 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with seasame protein. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. | y |
| | | | | | | | | | | indicates no gross or trace | | | | | |

| SAMPLING DETAILS | | | | | | | | RESULTS | | | FOLLOW-UP | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **LA Sample Reference / Number** | **Date of Sampling** (date sample was procured) | **Type of Premises** | **Product Sampled** | **Description** | **Country of origin** | **Sample Tested For (e.g. specific allergen/s, speciation tests etc.)** | **Additional Sampling Information** (e.g. declarations at point of sale, allergen claims etc.) | **Results Detail** | **Satisfactory Y/N** (* please provide sample report where unsatisfactory) | **Comments / Observations** | **Specify Informal Follow-up Action Taken** (other than advising of results e.g. advice provided) | **Specify Formal Follow-up Action Taken** (e.g. prosecution file prepared) | **Incident Reported to FSA Incidents Team Y/N** | **Details of Action Taken** (please feel free to provide additional information in any accompanying email. We are particularly interested to hear details of outcomes arising from sampling undertaken) | **Action Complete Y/N** |
| MTCBC/Q4/ SL2 | 09.03.2022 | Shop | PPDS | Tuna Mayo Baguette | UK | sesame | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | seasame protein: <2.5 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with seasame protein. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. | y |
| MTCBC/Q4/ SH1 | 09.03.2022 | shop/delicatessen | PPDS | Welsh Cakes | UK | soya | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | soya protein: <1.3 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with soya protein. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. Further verbal advice given to FBO | y |
| MTCBC/Q4/ SH2 | 09.03.2022 | shop/delicatessen | PPDS | Flake Trifle | UK | wheat | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | gluten: <10 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with gluten. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. Further verbal advice given to FBO | y |
| MTCBC/Q4/ JG1 | 09.03.2022 | shop | PPDS | Crispy Chicken Bites Garlic Mayo Baguette | UK | celery | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | peanut protein: <0.7 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with peanut protein. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. | y |
| MTCBC/Q4/ JG2 | 09.03.2022 | shop | PPDS | Ham Salad with Cheese, Egg and Beetroot | UK | sulphite | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | sulpher dioxide: <10 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with sulphur dioxide. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. | y |
| MTCBC/Q4/ OE1 | 09.03.2022 | shop | PPDS | Cheese and Onion Roll | UK | sesame | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | seasame protein: <2.5 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with seasame protein. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. | y |
| MTCBC/Q4/ OE2 | 09.03.2022 | shop | PPDS | Turkey Stuffing Roll | UK | celery | Determining if PPDS labelling complies with Food Information (Wales) (Amendment) (No2) Regulations 2020 | seasame protein: <2.5 mg/kg | y | indicates no gross or trace contamination with seasame protein. PPDS labelling issues identified. | Advice given to FBO | N/A | n | Letter and PA report sent to FBO. | y |